

Coflyfr

yr Ombwdsmon

Rhifyn 38 Gorffennaf – Medi 2019

Newyddion

Ymgynghoriad bellach ar gau

Mae'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid bellach ar gau ar yr egwyddorion a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r pwerau a grëwyd gan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Rhoddodd yr Ombwdsmon wybod i gyfranogwyr am yr ymgynghoriad drwy gyfres o seminarau a chyflwyniadau a drefnwyd gan Staff Ombwdsmon. I gyfeirio sefydliadau at y dogfennau, anfonwyd ebyst at gyrrff yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, aelodau o Seinfwrdd Defnyddiwr Gwasanaeth yr Ombwdsmon, sefydliadau trydydd sector, Aelodau'r Cynulliad a Chomisiynwr eraill yng Nghymru.

Mae'r Ombwdsmon yn dymuno diolch i'r holl rhanddeiliaid am eu hymatebion.



Coflyfr

yr Ombwdsmon

Rhifyn 38 Gorffennaf – Medi 2019

Cynnwys

Iechyd	3
Gweinyddu Budd-daliadau.....	35
Adloniant, Hamdden a Chyfleusterau Cymunedol	35
Ymdrin â Chwynion.....	36
Addysg.....	42
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd.....	43
Cyllid a Threthiant	45
Tai.....	45
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	49
Ffyrdd a Thrafnidiaeth.....	50
Darparwr Gofal Hunan-Ariannu	52
Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion.....	52
Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant	54

Iechyd

Cadarnhawyd

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201706582 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mrs X nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu gofal boddhaol, na wedi rheoli ei chyflwr yn briodol a hithau'n feichiog, ar 14 Ionawr 2017 pan oedd yn glaf yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Credai fod ei babi wedi marw yn y groth oherwydd y gofal gwael a dderbyniodd.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd nad oedd wedi darparu gofal boddhaol a'i fod wedi methu â rheoli cyflwr Mrs X pan oedd yn feichiog. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod na chafodd unrhyw asesiadau cyn-geni eu gwneud rhwng 9.00am a 10.20pm ar 14 Ionawr. Dywedodd y dylai asesiad llawn o'r fam a'r babi fod wedi cael ei wneud bob pedair awr. Pan ddaeth bydwagedd at Mrs X tua 10.20pm, nid oeddent wedi gallu canfod curiad calon ar gyfer y babi. Yn drist iawn, roedd y babi wedi marw yn y groth.

Ni allai'r ymchwiliad gasglu ei bod yn debygol fod y babi wedi marw oherwydd y gofal anfoddhaol. Fodd bynnag, roedd digon o ansicrwydd sylweddol ynghylch a allai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol pe na bai'r methiant gwasanaeth uchod wedi digwydd, oedd yn ddigon i achosi trallod ac anghyfiawnder i Mrs X. Felly penderfynwyd **cadarnhau'r gŵyn**.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro wrth Mrs X am y methiannau yn ei gofal a chynnig £1000 am y trallod a achoswyd iddi.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201802363 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mrs C am y gofal a'r driniaeth a roddwyd i'w mab Mr B, sy'n oedolyn, gan wasanaethau iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd. Cwynodd Mrs C am ddiffyg asesiad iawn o'i anghenion ac am fethu ag ystyried pryderon teulu Mr B, sef bod caniatâd wedi'i roi i Mr B adael heb gwmni a'i fod wedi dianc, na chafodd Mr B fynediad at gymorth priodol, bod trefniadau i'w ryddhau wedi eu gwneud heb i gynllun priodol fod yn ei le, a phan oedd Mr B wedi cael ei ryddhau o'r diwedd na chafodd ei atgyfeirio na'i gyfeirio ymlaen at wasanaethau priodol ac na wnaeth ymgynghorydd roi cyngor priodol ar ôl deall nad oedd Mr B yn cymryd ei feddyginiaeth yn iawn. Cwynodd Mrs C hefyd am yr oedi'n delio â'r gŵyn.

Casglodd yr ymchwiliad fod safon y gofal ar y cyfan yn rhesymol, fod gan Mr B fynediad at gymorth priodol a'i fod wedi cael cyfle i gyfrannu mewnbyn i'w gynllun gofal a thriniaeth. Yn ystod arhosiad Mr B fel claf mewnol, roedd ymgais i'w ryddhau wedi methu ac nid oedd y cynllun i'w ryddhau'r tro hwnnw'n foddhaol. Felly cadarnhaodd yr Ombwdsmon yr elfen hon o'r gŵyn. Er bod hyn wedi achosi trallod i Mr B a Mrs C, ni effeithiodd ar ofal Mr B yn gyffredinol ac arhosodd yn glaf mewnol am fis arall cyn cael ei ryddhau. Casglodd yr ymchwiliad fod y cynllun i'w ryddhau'r tro hwnnw'n gynllun priodol. Cafodd Mr B ei gyfeirio ymlaen at wasanaethau cymorth priodol, ond mater iddo fo oedd penderfynu gweithio gyda'r gwasanaethau a chymryd ei feddyginiaeth. Penderfynodd yr ymchwiliad cadarnhau cwyn Mrs C fod oedi afresymol wedi bod wrth ddelio â'i chwyn.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n ymddiheuro, o fewn mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad, i Mrs C am y dryswch ynghylch y methiant i ryddhau [Mr B] ac i gynnal sesiwn fyfyrion dan arweiniad gyda'r staff dan sylw. Cytunodd hefyd i ymddiheuro wrth Mrs C am yr oedi'n delio â'i chwyn ac i dalu £125 iddi am yr anhwylystod yr achosodd yr oedi hwn iddi.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty](#) [Achos Rhif: 201804791 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mr Y am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd gan Feddyg Teulu locwm ("y MT") mewn Meddygfa a reolir gan y Bwrdd Iechyd. Credai nad oedd y MT wedi ei asesu'n iawn yn ystod apwyntiad ac wedi methu â chanfod bod ganddo niwmonia, a gafodd ei ddiagnosisio nes ymlaen ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty dridiau'n ddiweddarach.

Casglodd yr Ombwdsmon, pe bai archwiliad clinigol a chofnodi hanes y MT wedi bod yn ddigon trylwyr, ac yn unol â chanllawiau'r GMC, y gallai fod wedi bod yn bosib casglu a oedd yr hyn a wnaeth yn glinigol briodol neu beidio. Fodd bynnag, oherwydd y diffygion gyda chadw cofnodion, ni allai'r Ombwdsmon ddweud i sicrwydd a oedd yr apwyntiad gyda'r MT oddi mewn i ffiniau ymarfer clinigol derbyniol, ac a oedd y diagnosis o symptomau fflw'n rhesymol, neu a allai asesiad a chofnodi hanes pellach fod wedi arwain at ddiagnosis gwahanol a chael triniaeth yn gynt. Nid oedd ychwaith unrhyw dystiolaeth ar gofnod yr apwyntiad fod cyngor 'cadw llygad' wedi'i roi, oedd yn ddiffyg pellach. Roedd yr ansicrwydd hwn yn anghyfiawnder a chafodd y gŵyn ei chadarnhau.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro wrth Mr Y am y methiant ac i dalu iawndal i gydnabod yr ansicrwydd a achoswyd gan y diffygion yn yr apwyntiad.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201802377 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Ms Y am driniaeth ei diweddar dad (Mr X) yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot yn 2017. Yn benodol, cwynodd am y modd y cafodd gyflwr diabetes ei thad ei reoli a bod methiant wedi bod i ddelio'n briodol â briw (wlser) ar un o fysedd ei droed fel y bu'n rhaid ei dorri i ffwrdd, na roddwyd ei feddyginiaeth iechyd meddwl iddo am bum diwrnod a hefyd bod oedi wedi bod cyn ei atgyfeirio at Nyrs Cyswllt Iechyd Meddwl (MHLN).

Casglodd yr Ombwdsmon fod diabetes Mr X wedi cael ei reoli'n rhesymol, ac yn benodol, bod y newidiadau i'w feddyginiaeth yn briodol yn yr amgylchiadau. Penderfynodd beidio â chadarnhau y rhan hon o'r gŵyn. Roedd risg y gallai Mr X gael cymhlethdodau gyda'i draed oherwydd ei ddiabetes a'i ddementia. Roedd y cofnodion nyrsio am y cyfnod dan sylw ar goll, felly nid oedd yn bosib dweud i sicrwydd a fyddai wedi bod yn bosib canfod y broblem gyda briw Mr X ar ei droed yn gynt a gweithredu'n gynt i osgoi ei dorri i ffwrdd. Ar ôl ystyried popeth, cadarnhaodd yr Ombwdsmon y rhan yma o'r gŵyn. Nododd yr Ombwdsmon fod y siartiau presgripsiwn yn dangos fod meddyginiaeth iechyd meddwl wedi'i rhoi i Mr X ar dri achlysur dros gyfnod y pum diwrnod, fodd bynnag oherwydd bod y cofnodion nyrsio ar goll roedd yn amhosib dweud a ddylid bod wedi rhoi'r feddyginiaeth ar adegau eraill. O ystyried yr ansicrwydd hwn, cadarnhaodd y rhan yma o'r gŵyn. Yn olaf, er yn ddelfrydol y dylai Mr X fod wedi cael ei weld yn gynt gan Y MHLN, yn ymarferol ni achosodd hyn unrhyw niwed iddo. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chadarnhau y rhan yma o'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Ms Y, yn adolygu ei weithdrefnau i sicrhau bod ei dimau diabetig arbenigol yn cael eu hysbysu pan fydd cleifion gyda diabetes yn cael eu derbyn, yn atgoffa'r staff nyrsio perthnasol o beryglon anafiadau i draed cleifion gyda diabetes a dementia, ac yn hysbysu'r Ombwdsmon a Ms Y o ganlyniad yr adolygiad yr oedd yn ei gyflawni o drosglwyddo cofnodion rhwng ysbytai.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru-Gwasanaethau Ambiwllans
Achos Rhif: 201706461 a 201706121 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs A fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, ar 1 Ionawr 2017, wedi methu â darparu ambiwlans i'w thad, Mr B, o fewn yr amser priodol. Dywedodd Mrs A nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi i ateb y galw am ei gwasanaethau dros y Flwyddyn Newydd, ei bod wedi methu â chategoreiddio'r galwadau brys gan ei theulu'n gywir, a heb gysylltu ag Ysbyty Brenhinol Gwent ("yr Ysbyty") i ofyn i ambiwlansys gael eu rhyddhau. Cwynodd Mrs A hefyd fod y driniaeth a dderbyniodd Mr B gan y criwiau ambiwlans yn amhriodol. O ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cwynodd Mrs A ei fod wedi methu â dilyn ei bolisiau uwchgyfeirio a rhyddhau ambiwlansys o'r Ysbyty mewn ffordd amserol. Yn olaf, cwynodd Mrs A fod yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Iechyd wedi delio'n wael gyda'i chwyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod gan yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Iechyd gynlluniau priodol yn eu lle ar gyfer y Flwyddyn Newydd ac wedi eu gweithredu, ond yn realistig na ellid bod wedi rhagweld y cynnydd yn y galwadau'r diwrnod hwnnw (bron i 95% yn uwch na'r un diwrnod y flwyddyn cynt). Penderfynodd beidio â chadarnhau y rhan yma o'r gŵyn. Roedd gwallau wedi bod gyda chategoreiddio rhai o'r galwadau, ond ni effeithiodd hyn ar ba mor hir y cymrodd i ambiwlans gyrraedd. I'r graddau bod ansicrwydd y gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol pe bai'r ymateb wedi bod yn gynt unwaith i'r alwad gael ei chategoreiddio'n 'goch', penderfynodd yr Ombwdsmon gadarnhau y rhan yma o'r gŵyn yn erbyn yr Ymddiriedolaeth. Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a gafwyd gan y parafeddygon ar ôl iddynt gyrraedd yn briodol. Penderfynodd beidio â chadarnhau rhan yma o'r gŵyn. Casglodd yr Ombwdsmon fod rhai methiannau gyda sut y deliodd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Iechyd â chwynion Mrs A a phenderfynodd gadarnhau y rhannau hynny o'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mrs A am y methiannau a bod y naill gorff yn talu £250 a'r llall yn talu £100 am y gwallau wrth ddelio â'i chwyn. Argymhellodd yr Ombwdsmon hefyd fod yr Ymddiriedolaeth yn anfon tystiolaeth ato ei bod wedi gweithredu'r gwelliannau y penderfynodd eisoes eu gwneud o ganlyniad i gŵyn Mrs A.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201804041 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Roedd y gŵyn hon yn ymwneud â gofal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sydd, ers yr hyn a ddigwyddodd, wedi cael ei ail-enwi'n Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfeirio at Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel y corff sydd i weithredu unrhyw faterion y tynnir sylw atynt a'i argymhellion.

Cwynodd Mrs B fod y Bwrdd Iechyd, pan oedd ei thad ("Mr C") yn yr ysbyty rhwng 3 – 7 Hydref 2017 gyda rhwystr yn ei goluddyn oherwydd canser terfynol y stumog, wedi methu â monitro ei gyflwr yn briodol, wedi methu â chymryd camau rhesymol i reoli ei chwydu, ei anghenion toiled a'i hylendid a

heb roi triniaeth briodol iddo. Cwynodd Mrs B hefyd nad oedd Mr C na'i deulu wedi cael eu diweddarau fel y dylent ynghylch cyflwr Mr C na'i brognosis a bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â phrosesu ei chwyn yn briodol.

Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd Iechyd wedi esbonio cyflwr a phrognosis Mr C yn foddhaol, na'i fod yn dirywio. Felly roedd ei ddirywiad a'i farwolaeth wedi bod yn annisgwyl i'r teulu. Casglodd hefyd fod y gwaith o fonitro chwydu ac anghenion toiled a hylendid Mr C wedi bod yn anfoddhaol er bod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi cydnabod y diffyg hwn ac wedi cymryd camau priodol i fonitro a gwella'r safonau nyrsio. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod oedi wedi bod cyn gofyn am gyngor arbenigol ynghylch sut orau i reoli symptomau Mr C. Fodd bynnag roedd natur ei gyflwr yn golygu na fyddai ei atgyfeirio'n gynt wedi newid y driniaeth a dderbyniodd na'r canlyniad yn y pen draw. Yn olaf, casglodd yr Ombwdsmon er bod sylwedd y gŵyn gan Mrs B yn gymhleth, bod yr ymateb terfynol wedi digwydd ar ôl yr amserlen statudol estynedig o chwe mis. Roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi methu â rheoli disgwyliadau Mrs B drwy gydol y broses.

Roedd y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymddiheuro am y diffygion dan sylw ac felly ni wnaeth yr Ombwdsmon unrhyw argymhelliad ynghylch ymddiheuro. Fodd bynnag, argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd gynnig symiau dangosol o arian i Mrs B i gydnabod ei fethiannau'n rheoli ei disgwyliadau a gyda chyfathrebu'n effeithiol â Mr C a'i deulu. Argymhellodd hefyd y dylai'r Bwrdd Iechyd atgoffa'r staff perthnasol o bwysigrwydd diweddarau cleifion a'u teuluoedd yn gyson ac ystyrlon, a'u hatgoffa hefyd o'r safonau gofal nyrsio sy'n ofynnol.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201800160 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Ms T am y gofal a roddwyd i'w diweddar fam, Mrs Y, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd ei chwyn yn ymwneud â sut yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi delio ag amheuaeth bod gan Mrs Y rwystr yn ei choluddyn, gwaedu cysylltiedig o'r stumog a'r coluddyn, a'i gofal diwedd bywyd. O ran yr amheuaeth bod gan Mrs Y rwystr yn ei choluddyn, lleisiodd Ms T bryderon am brydlondeb gofal Mrs Y a'i throsglwyddo rhwng ysbytai, cwblhau enema cyferbyniol hydawdd-mewn-dŵr ("yr enema cyferbyniol") a gosod stent colonig ("y stent"). Lleisiodd Ms T hefyd bryder am sut y deliodd y Bwrdd Iechyd â'r gŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi rheoli'r broses o drosglwyddo Mrs Y rhwng ysbytai'n iawn, o ran cynllunio ac ymdrin â diffyg adnoddau radiolegol, i bob golwg. Derbyniodd na effeithiwyd, i unrhyw raddau amlwg, ar ofal clinigol Mrs Y oherwydd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau enema cyferbyniol. Ni chasglodd ychwaith fod peidio â gosod stent yn fethiant clinigol. Cadarnhaodd, yn rhannol, yr agwedd ar gŵyn Ms T yn ymwneud â rheoli'r amheuaeth bod gan Mrs Y rwystr yn ei choluddyn, oherwydd bod y methiannau'n ymwneud â chynllunio i'w throsglwyddo a rheoli'r diffyg adnoddau wedi achosi anghyfiawnder sylweddol i Mrs Y ar ffurf trallod sylweddol y gellid fod wedi'i osgoi. Casglodd fod y canfyddiadau hynny hefyd wedi atal Mrs Y rhag gwneud penderfyniad gwybodus am ei thriniaeth a rhag penderfynu'n gynt bod arni eisiau mynd adref. Cadarnhaodd, yn rhannol, yr agwedd ar gŵyn Ms T yn ymwneud â rheoli gofal diwedd bywyd Mrs Y, oherwydd bod y methiannau'n ymwneud â chynllunio i'w throsglwyddo a rheoli'r diffyg adnoddau wedi achosi anghyfiawnder sylweddol i Mrs Y o ran amharu ar ei dewisiadau fel claf ac ar ei hurddas. Penderfynodd beidio â chadarnhau y rhan o gŵyn Ms T yn ymwneud â rheoli'r gwaedu cysylltiedig o'r stumog a'r coluddyn. Casglodd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nac ymateb i bryderon Ms T am ei ymateb ysgrifenedig i'w chwyn. Cadarnhaodd y rhan o'r gŵyn yn ymwneud â delio â chwyn Ms T oherwydd bod y methia nnau hyn yn delio â'i chwyn wedi achosi anghyfiawnder sylweddol i Ms T o ran ansicrwydd ac anfodlonrwydd.

Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai'r Bwrdd Iechyd, o fewn y pedair wythnos nesaf, ysgrifennu at Ms T yn ymddiheuro am y methiannau hyn. Argymhellodd hefyd y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'n feirniadol ei ymateb ysgrifenedig i gŵyn Ms T, paratoi adroddiad ar yr adolygiad beirniadol hwnnw, atgoffa staff bod angen cadarnhau bod arbenigwyr allweddol ac unigol ar gael cyn trosglwyddo i ysbyty arall, a ysgogir gan ddisgwyl y byddai ganddynt fewnbwn, ac yn anfon copi at Ms T o'i adroddiad ar yr adolygiad beirniadol ynghyd â thystiolaeth o'r cyfarwyddyd atgoffa ffurfiol. Gofynnodd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r tasgau hyn o fewn y 10 wythnos nesaf. Argymhellodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd, o fewn y chwe mis nesaf, yn rhoi gwybodaeth i Ms T am y camau a gymrodd i gyflwyno ei system rota electronig. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu'r argymhellion hyn.

Gofal Deintyddol Bupa Caernarfon – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty Achos Rhif: 201803353 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms A am ei thriniaeth yn cael tynnu dant molar uchaf chwith (UL6) gan ddeintydd locwm ("y Deintydd") a oedd yn gweithio yn y ddeintyddfa dan sylw ("y Ddeintyddfa"). Roedd y Ddeintyddfa'n gweithredu'r contract deintyddol i gwmni ("y Cwmni") oedd â threfniant gyda'r bwrdd iechyd lleol i ddarparu gofal deintyddol ar y GIG. Dywedodd Ms A na chynigiwyd unrhyw opsiwn heblaw tynnu'r dant iddi. Roedd deintydd arall wedyn wedi dweud wrthi y gellid bod wedi achub y dant. Teimlai Ms A fod y Deintydd wedi rhuthro ac nad oedd wedi gwneud digon i achub ei dant. Ers hynny roedd wedi talu'n breifat am ddant mewnbledig ac roedd yn anfodlon â'r modd y deliwyd â'i chwyn.

I gynorthwyo ei ymchwiliad, gofynnodd yr Ombwdsmon am gyngor gan un o'i gynghorwyr proffesiynol ("y Cynghorydd") a aeth drwy gofnodion deintyddol Ms A. Sylwodd y Cynghorydd nad oedd y cofnodion clinigol yn dangos unrhyw dystiolaeth o drafod opsiynau eraill gyda Ms A. Yn ei farn ef gallai'r dant UL6 fod wedi cael ei achub drwy driniaeth 'llenwi'r gwreiddyn'. Nid oedd y dant UL6 mewn unrhyw waeth cyflwr na dant arall oedd wedi'i llenwi fel hyn. Er yn y pen draw y byddai wedi bod angen tynnu'r dant UL6 (oherwydd mae unrhyw ddant â'i wreiddyn wedi'i llenwi'n dueddol o dorri), nid oedd angen ei dynnu bryd hynny. Casglodd yr Ombwdsmon fod methiannau ym mhroses cadw cofnodion y Deintydd, diffyg trafodaeth gyda Ms A fel y gallai benderfynu'n iawn a chytuno i dynnu'r dant, nad oedd angen tynnu'r dant UL6 ar y pryd ynghyd â methiannau yn y ffordd y deliodd y Cwmni â'r gŵyn (gan gynnwys cymryd rhan yn ymchwiliad yr Ombwdsmon).

Fe wnaeth yr Ombwdsmon argymhellion a dderbyniwyd yn llawn gan y Cwmni. Cytunodd i ymddiheuro wrth Ms A am y methiannau a'r ffordd y deliodd â'i chwyn, ac i dalu iawndal o £1000 iddi (fel cyfraniad at ei thriniaeth adferol breifat) a £250 am sut y deliodd â'i chwyn. Cytunodd y Cwmni hefyd i rannu'r adroddiad â'r Deintydd fel y gallai fyfyrto ar ei ofal, a hefyd i'w rannu â'i holl dimau deintyddol i sicrhau dysgu ehangach. Yn olaf, cytunodd y Cwmni i adolygu ei bolisi trin cwynion a'r wybodaeth ar ei wefan i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer delio â chwynion y GIG yng Nghymru.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201707248 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Ms B am bethau a ddigwyddodd yn ymwneud â'i gofal mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent ("yr Ysbyty"). Mae Ms B yn Fwslim ac yn figan. Dywedodd pan gafodd ei derbyn gyntaf i'r Ysbyty ei bod wedi cael ei rhyddhau mewn camgymeriad ond iddi gael ei galw'n ôl wedyn, ei derbyn, ac yna gorfod cael llawdriniaeth Caesarean brys. Roedd cynlluniau geni Ms B wedi nodi'n glir mai merched yn unig oedd i ofalu amdani ac na ddylid mynd â'i babi oddi arni ar unrhyw adeg, na rhoi llaeth fformiwla neu ategolion maeth i'r babi. Cwynodd Ms B na chafodd yr un o'i dymuniadau eu dilyn oherwydd mai dyn-feddyg oedd wedi perfformio'r driniaeth 'bersonol' ar ôl yr enedigaeth, oedd wedi achosi trallod mawr iddi. Dywedodd hefyd y cymerwyd ei babi oddi arni a bod ategolion maeth wedi'u rhoi iddo. Dywedodd Ms B nad oedd staff yr Ysbyty wedi parchu ei chredoau diwylliannol.

Casglodd yr Ombwdsmon pan dderbyniwyd Ms B gyntaf i'r ysbyty, nad oedd unrhyw reswm clinigol pam na allai fod wedi mynd adref. Nid oedd a wnelo hyn ddim ar y ffaith bod angen llawdriniaeth Caesarean arni wedyn. Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon o'r cofnodion na chafodd fformiwla nac ategolion maeth eu rhoi i fabi Ms B. Ar wahân i unwaith, am gyfnod byr iawn (i setlo'r babi tra'r oedd Ms B yn gorffwys) nid oedd unrhyw beth i ddangos bod babi Ms B wedi'i gymryd oddi arni. Ni chadarnhawyd y cwynion hyn. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod y ferch-feddyg wedi gadael i roi sylw i famau eraill oedd ar ganol esgor, felly'n anffodus bu'n rhaid i ddyn-feddyg berfformio'r driniaeth. Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod trallod Ms B oherwydd hyn. Fodd bynnag, roedd yn fodlon bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi sylw dyledus i ddiwylliant a hawliau dynol Ms B (Erthyglau 8 a 9). Roedd wedi sicrhau y cafodd ofal ar hyd yr adeg gan ferched heblaw am yr un achlysur hwn. O ystyried anghenion y mamau eraill ar amser prysur, a Ms B wedi geni ei babi'n ddiogel, roedd gan y Bwrdd Iechyd hawl i fynd yn groes i hawliau Erthygl 8 Ms B i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i hawliau tebyg mamau eraill y noson honno. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon y gallai'r cyfathrebu gyda Ms B ar y pryd, a nes ymlaen wrth ymateb i'w chwyn ar y mater hwn, fod wedi bod yn gliriach. Roedd ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd yn ddryslyd ac anghyson. Cafodd problem cadw cofnodion hefyd ei ganfod. I'r graddau hyn felly, casglodd yr Ombwdsmon fod camweinyddu wedi digwydd gan achosi anghyfiawnder i Ms B a phenderfynwyd cadarnhau y gŵyn yn rhannol.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Ms B am y methiant i gyfathrebu, yn talu iawndal o £250 iddi, yn rhannu'r adroddiad â staff mamolaeth yr Ysbyty fel pwynt dysgu ac yn atgoffa'r staff perthnasol am y prosesau o gadw cofnodion.

[Triniaeth glinigol yn yr ysbyty - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)
[Achos Rhif: 201803259 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mr a Mrs X am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd Mr X gan Wasanaeth Cof y Bwrdd Iechyd. Yn benodol, roedden nhw'n cwyno na wnaeth y Bwrdd Iechyd roi gwybodaeth gywir i Mr X am ei ddiagnoses posib, na chynigiwyd apwyntiadau a chyingor mewn amser rhesymol ac na wnaeth y Bwrdd Iechyd baratoi Cynllun Gofal priodol na Chytundeb Gofal Ar y Cyd â Meddyg Teulu Mr X. Cwynodd Mrs X hefyd na chynigiwyd cymorth digonol iddi fel yr un oedd yn gofalu am Mr X.

Casglodd yr ymchwiliad fod diagnosis Mr X o ddementia fasgwlar wedi cael ei newid i ddiagnosis o ddementia cymysg rhwng Medi 2017 a Chwefror 2018, ond na hysbyswyd Mr X o hyn ac na roddwyd cyfle ychwaith i drafod y newid hwn gyda'r Gwasanaeth Cof. Penderfynodd yr ymchwiliad gadarnhau yn rhannol y gŵyn gan Mr a Mrs X na chawsant apwyntiadau a chyngor mewn amser rhesymol, gan nodi bod apwyntiadau wedi cael eu cynnig y tu allan i'r amserlen arferol, ond nad oedd unrhyw dystiolaeth fod hyn wedi effeithio ar y gofal a dderbyniodd Mr X. Casglodd yr ymchwiliad fod gan Mr X Gynllun Gofal boddhaol yn ei le, ond na chafodd y Cytundeb Gofal Ar y Cyd ei weithredu'n gywir. Ni chadarnhawyd y gŵyn na chynigiwyd cymorth digonol i Mrs X fel yr un oedd yn gofalu am Mr X, oherwydd penderfynwyd mai'r Awdurdod Lleol oedd yn gyfrifol am hyn.

Nododd yr ymchwiliad fod y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar wedi datblygu Polisi Gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Cof oedd yn ateb rhai o'r methiannau dan sylw. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro wrth Mr a Mrs X, talu £250 iddynt oherwydd bod angen iddynt gwyno i'r Ombwdsmon, a £50 am yr anhwylystod o orfod cysylltu droeon â'r Bwrdd Iechyd i gael gafael ar bresgripsiynau pellach o feddyginiaeth Mr X. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd newid fymryn ar ei Bolisi Gweithredol i gyfeirio at sefyllfaoedd lle mae diagnosis wedi cael ei ddiwygio neu newid, ac o fewn chwe mis y dylai ddiwygio'r Protocol Gofal Ar y Cyd i nodi'n glir pryd y daw'r cytundeb gyda phartneriaid Meddygon Teulu i rym.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201802962 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mr A am safon y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei fam, Mrs B, yn Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Brenhinol Gwent. Roedd Mr A eisiau gwybod a ddylai ei fam fod wedi cael diagnosis cynt o drawiad ar y galon a murmur ar y galon ac a fyddai hyn wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i ganlyniad ei ddiweddar fam. Cwynodd Mr A hefyd nad oedd ymateb y Bwrdd Iechyd i'w gŵyn wedi bod yn drylwyr.

Casglodd ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y gofal a roddwyd i Mrs B yn briodol a rhesymol. Roedd hefyd yn fodlon, hyd yn oed pe bai diagnosis cynt wedi'i wneud o gyflwr calon Mrs B, na fyddai ei chanlyniad wedi bod ddim gwahanol. Felly penderfynodd beidio â chadarnhau yr agwedd hon ar gŵyn Mr A. O ran pryderon Mr A ynghylch sut y deliwyd â'i gŵyn a'r cyfathrebu gwael gyda'r teulu, casglodd yr ymchwiliad fod y pethau hyn yn rhesymol a phrydlon ar y cyfan. Wedi dweud hynny, ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth fod y teulu wedi eu hysbysu o lefel troponin uchel Mrs B a'r ffaith bod trawiad blaenorol ar y galon wedi achosi'r murmur ar ei chalon wedyn. Casglodd fod y diffyg gydag esbonio hyn yn glir wedi achosi dryswch i'r teulu a bod y diffyg cyfathrebu o ganlyniad wedi ychwanegu at drallod y teulu ac wedi achosi anghyfiawnder. I'r graddau hyn yn unig felly, cadarnhaodd yr Ombwdsman y rhan yma o gŵyn Mr A.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mr A am y diffyg cyfathrebu.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201806695 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mr B nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gofyn am ei ganiatâd gwybodus cyn cymryd biopsi ar ei brostrad, na wnaeth y Bwrdd Iechyd weinyddu gwrthfotig i atal haint yn iawn (gan achosi sgil-effeithiau), na chafodd gweithdrefnau'r clinig eu dilyn a'i fod wedi methu â darparu ôl-ofal priodol. Cwynodd Mr B hefyd na wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried a oedd yn briodol gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer cyflwr a oedd ganddo'n barod, ac na wnaeth y Bwrdd Iechyd roi sylw priodol i'w gwynion.

Casglodd yr ymchwiliad nad oedd digon o fanylion yn y cofnod o'r hyn a ddigwyddodd a bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull apwyntiad 'addas i bawb'. Roedd yr apwyntiad wedi'i ruthro ac ni roddwyd digon o wybodaeth i Mr B fel y gallai ganiatáu i'r driniaeth. Roedd Mr B yn fregus oherwydd y cyflwr oedd ganddo'n barod ac ni wnaeth y clinigwyr roi sylw dyledus i hyn yn ystod yr apwyntiad. Hefyd, oherwydd y methiant i ystyried yn llawn beth fyddai effaith y cyflwr oedd gan Mr B yn barod a'r methiant i ddilyn gweithdrefnau a arweiniodd at ddiraddio urddas Mr B, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad y gallai hyn fod wedi effeithio ar hawliau dynol Mr B.

Er na chafodd y gŵyn yn ymwneud â gweinyddu'r gwrthfotig ei chadarnhau, derbyniwyd na fyddai Mr B efallai wedi cymryd y feddyginiaeth o gwbl pe bai wedi derbyn digon o wybodaeth am ei opsiynau, felly roedd ansicrwydd ynghylch a ellid bod wedi osgoi'r sgil-ffeithiau yr oedd Mr B wedi eu dioddef. Casglodd yr ymchwiliad hefyd na wnaeth y Bwrdd Iechyd ddilyn gweithdrefnau'r clinig yn iawn na darparu ôl-ofal digonol. Cafodd diffygion yn delio â'r gŵyn hefyd eu hadnabod.

Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai'r Bwrdd Iechyd, o fewn mis, ymddiheuro wrth Mr B a thalu iawndal o £500 am fethu ag ystyried y cyflwr oedd ganddo'n barod wrth ddarparu'r gwasanaeth clinig-un-stop, talu iawndal o £125 am y diffygion yn delio â'r gŵyn, sicrhau bod yr holl staff a gafodd ran yng ngofal Mr B yn myfyrio ar gynnwys yr adroddiad gyda'u goruchwyliwr ac yn myfyrio ar sut y gallai'r broses o ddelio â'r gŵyn fod wedi bod yn well. Argymhellodd hefyd y dylai'r Bwrdd Iechyd, o fewn tri mis, drefnu hyfforddiant i'r staff a gafodd ran yng ngofal Mr B ar wneud addasiadau rhesymol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad a chytuno i weithredu'r argymhellion.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201800771 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mrs Y am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei diweddar fam, Mrs X, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer nifer o broblemau iechyd. Roedd hyn yn cynnwys rheoli poen cefn difrifol Mrs X yn dilyn adroddiad sgan MRI anghywir, y diagnosis a'r driniaeth a dderbyniodd pan aeth i'r ysbyty yn Chwefror 2017 ar gyfer y naill ac Awst 2017 ar gyfer y llall, ac a oedd angen ymchwiliadau pellach neu driniaeth ar gyfer canlyniadau profion gwaed a gafodd ar 2 Awst. Cwynodd Mrs Y hefyd am safon y cadw cofnodion ac am y ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon na fyddai'r broses o reoli poen cefn Mrs X wedi newid pe bai'r adroddiad MRI cyntaf wedi bod yn gywir ac nad oedd unrhyw atgyfeiriadau na thriniaethau ychwanegol y gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi eu cynnig iddi wrth aros am apwyntiad i gael gweld llawfeddyg asgwrn cefn. Penderfynodd hefyd nad oedd diagnosis o strôc wedi cael ei gollu pan aeth Mrs X i'r Adran Achosion Brys ar 17 Chwefror a bod opsiynau triniaeth priodol wedi cael eu hystyried pan gafodd ei derbyn nes ymlaen gyda strôc ar 25 Awst. Casglodd hefyd fod safon y cadw cofnodion, pan dderbyniwyd Mrs X i'r ysbyty y ddau dro hwn, ar y cyfan yn rhesymol. Felly penderfynodd beidio â chadarnhau yr agweddau hyn ar y gŵyn. Fodd bynnag, casglodd yr Ombwdsmon nad oedd yn glir a oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried cymryd ail brofion gwaed yn sgil canlyniadau Mrs X ar 2 Awst. Er hynny, hyd yn oed pe bai wedi gwneud hynny, mae'n debyg na fyddai meddyginiaeth Mrs X wedi cael ei newid ac felly nad oedd hyn yn anghyfiawnder sylweddol. O ganlyniad, cadarnhawyd y rhan yma o'r gŵyn yn rhannol. Penderfynodd yr Ombwdsmon hefyd, er nad oedd oedi cyn ymateb i'r gŵyn yn afresymol o ystyried ei chymhlethdod, bod diffyg cynnydd wedi bod gydag ymchwilio i'r gŵyn ar y dechrau ynghyd â thystiolaeth o gyfathrebu gwael gyda Mrs X (a wnaeth y gŵyn gyntaf cyn iddi farw) a Mrs Y. Ar y sail honno, penderfynodd gadarnhau y rhan honno o'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mrs Y ac yn talu iawndal o £250 i adlewyrchu ei gasgliadau yng nghyswllt delio â'r gŵyn. Argymhellodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn atgoffa staff sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion o bwysigrwydd diweddar achwynwyr yn amserol o'r cynnydd a wneir â chwynion, y dylai adolygu perfformiad yr Adran Radioleg wrth ymateb i gwynion a bod yr adroddiad yn cael ei drafod gyda'r Haematolegydd Ymgynghorol. Awgrymodd yr Ombwdsmon hefyd nifer o welliannau y dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried eu gweithredu'n wirfoddol. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu'r argymhellion a'r gwelliannau.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201805301 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mrs A am brosesau rheoli a gofal yr Adran Achosion Brys ("ED") yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl i'w mam, Mrs C, dorri ei phelfis a chael anaf i'w phenelin yn dilyn cael codwm pan oedd ar wyliau yng Nghymru. Dywedodd Mrs A fod ei mam yn 91 oed, yn drwm ei chlyw ac wedi cofrestru bod ganddi nam rhannol ar ei golwg. Roedd Mrs A hefyd yn anfodlon â'r ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn.

Daeth ymchwiliad yr Ombwdsmon o hyd i fethiannau yn asesiad ac archwiliad orthopaedig Mrs C a gyda'r broses o'i rhyddhau. Ni gadarnhaodd yr Ombwdsmon fod y ddau doriad i'r pelfis oedd wedi eu hadnabod gan y meddyg orthopaedig iau'n rhai hen. Cafodd y methiannau hyn eu gwaethygu gan ddiffyg unrhyw adolygiad gan feddyg orthopaedig hŷn a hefyd gan fethiannau gyda'r asesiad a wnaed gan y tîm Therapi Galwedigaethol cyn rhyddhau Mrs C. Roedd yr Ombwdsmon yn feirniadol bod gwraig oedrannus a bregus wedi cael ei rhyddhau'n ôl i westy heb drefniant dilynol mewn amgylchiadau nad oedd yn achos priodol a diogel o ryddhau claf. Roedd yr ymchwiliad hefyd wedi adnabod nad oedd y cyfathrebu mor effeithiol ag y gallai fod wedi bod ac nad oedd ymateb y Bwrdd Iechyd i'r gŵyn yn ddigon trylwyr. Cadarnhawyd cŵyn Mrs A.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mrs A a'i mam ac yn sicrhau bod system yn ei lle fel bod meddygon orthopaedig hŷn yn adolygu cleifion sydd i'w rhyddhau heb drefniant dilynol. Hefyd y dylid atgoffa clinigwyr yn yr Adran ED/OT i ofyn i gleifion am unrhyw addasiadau rhesymol sydd ei angen arnynt, a chofnodi eu hymateb. Yn olaf, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a dysgu gwersi o gŵyn Mrs A a'r ffordd y mae'n delio â chwynion.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201803733 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mrs B am brosesau rheoli a gofal Adran ED yr Ysbyty ar ôl i'w diweddar ŵr gael ei dderbyn gyda phoenau yn ei frest a'i gefn. Bu farw'n 36 oed ar ôl iddo ddioddef trawiad ar y galon yn fuan ar ôl ei ryddhau. Dangosodd y post-mortem fod ganddo achos difrifol o glefyd y galon. Roedd Mrs B hefyd yn anfodlon â'r ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn a gyda pha mor drylwyr oedd yr ymateb i'w chŵyn.

Casglodd ymchwiliad yr Ombwdsmon y dylai'r tîm meddygol ar-alwad fod wedi atgyfeirio Mr B at Gardiolegydd i gael adolygiad fel claf mewnol o ystyried ei risgiau cardio-fasgwlar a'r ffaith ei fod, fel diabetig, yn fwy tebygol o gyflwyno gyda phoen brest anarferol. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn feirniadol na chafodd ganllawiau NICE ar feddyginiaeth y galon eu dilyn a heb i glinigwyr nodi unrhyw resymau yng nghofnodion Mr B pam eu bod wedi gwyro o'r canllawiau. Roedd cyflwyniad clinigol Mr B yn golygu na allai'r Ombwdsmon ddweud i sicrwydd, hyd yn oed pe bai wedi cael ei atgyfeirio i gael adolygiad gan Gardiolegydd, y byddai ei reolaeth a'i ofal ac felly'r canlyniad yn achos Mr B wedi bod ddim gwahanol. Yr anghyfiawnder i Mrs B a'r teulu oedd y byddai'n rhaid iddynt fyw gyda'r ansicrwydd o beidio â gwybod a gollwyd cyfle i newid y canlyniad yn achos Mr B. Casglodd yr ymchwiliad hefyd fod diffygion gweinyddol wedi bod gyda'r ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'r gŵyn ac o ran pa mor drylwyr oedd ei ymateb i'r gŵyn. Cadarnhaodd yr Ombwdsman gŵyn Mrs B.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro am y diffygion ac yn talu £2,000 i Mrs B am yr ansicrwydd yr oedd y teulu'n awr yn ei wynebu, ynghyd â £250 i adlewyrchu'r diffygion gyda delio â'r gŵyn. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd rannu'r adroddiad gyda'i dîm meddygol ar-alwad er mwyn dysgu gwersi ac atgoffa ei ymchwilwyr cwynion o bwysigrwydd bod yn glir beth yw statws y clinigwyr 'annibynnol' y cyfeirir atynt wrth ymateb i gwynion.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201803138 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mr A am y gofal a'r rheolaeth o'i ferch, Plentyn B, ar gyfer ei chyflwr calon. Lleisiodd bryderon am effaith y cafodd oedi gan Ysbyty Nevill Hall cyn cyflawni ymchwiliadau dilynol, oedd wedi eu hargymell, ar Blentyn B a bod hynny wedi cyfrannu at orfod ei bwydo drwy diwb a phryderon iechyd eraill. Roedd Mr A hefyd yn anfodlon â'r ffordd oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyfathrebu â'r teulu a gyda pha mor drylwyr oedd ei ymateb i'r gŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a'r rheolaeth o Blentyn B, ar y cyfan, yn briodol. Fodd bynnag, casglodd fod oedi wedi bod cyn gwneud prawf i fonitro calon Plentyn B a bod hyn yn fethiant gwasanaeth. O ystyried na effeithiodd hyn ar orfod bwydo Plentyn B drwy diwb ac na chyfrannodd at ei phroblemau iechyd cymhleth eraill, ni achoswyd unrhyw anghyfiawnder sylweddol i Blentyn B. Felly ni chadarnhaodd y rhan yma o gŵyn Mr A. Casglodd yr ymchwiliad fod yr oedi droeon wrth drefnu apwyntiadau dilynol â'r clinig cardioleg paediatrig wedi cyfrannu at fethiannau cyfathrebu, felly i'r graddau hyn penderfynodd gadarnhau cwyn Mr A. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mr A am yr ymateb i'w gŵyn, oherwydd casglodd fod y Bwrdd Iechyd, ar y cyfan ac yn briodol, wedi rhoi sylw i'r pryderon a leisiwyd gan y teulu.

O ran argymhellion, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro wrth Mr A a'i deulu am y methiannau. Hefyd, os nad oedd eisoes wedi gwneud hynny, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddechrau rhoi adborth rheolaidd i'w Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Byddai gan y Pwyllgor wedyn drosolwg ar y materion capasiti sy'n achosi oedi i'r gofal cardioleg paediatrig dilynol a'r hyn sy'n cael ei wneud i roi sylw i'r problem.

My Dentist - Talbot Green – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty Achos Rhif: 201804889 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Ms X am y driniaeth ddeintyddol a dderbyniodd mewn dwy ddeintyddfa rhwng 1 Mai a 25 Mehefin 2018. Bu'r ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

- a) Y driniaeth a dderbyniodd Ms X rhwng 1 Mai a 25 Mehefin yn y Ddeintyddfa Gyntaf; a
- b) Y driniaeth a dderbyniodd Ms X rhwng 14 a 25 Mehefin yn yr Ail Ddeintyddfa; a

Casglodd yr ymchwiliad fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd i Ms X ar y cyfan yn briodol, ac eithrio apwyntiad brys ar 14 Mehefin. Casglodd fod y deintydd wedi camfarnu wrth benderfynu ar driniaeth briodol i Ms X yn ystod yr apwyntiad hwn. Achosodd hyn oedi o chwe diwrnod cyn i Ms X dderbyn y driniaeth briodol. Dros y cyfnod hwn, roedd Ms X mewn poen a ystyriwyd i fod yn anghyfiawnder. Yn ystod yr ymchwiliad, roedd yr Ail Ddeintyddfa wedi cydnabod ac ymddiheuro am fethu â thrin Ms X yn briodol.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr Ail Ddeintyddfa, o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad, yn anfon llythyr yn ymddiheuro wrth Ms X ac yn talu iawndal ariannol iddi am fethu â thrin ei symptomau'n briodol pan gyflwynodd fel claf brys ar 14 Mehefin.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201805589 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr B am y gofal a dderbyniodd ei wraig, Mrs B, yn ystod ei arhosiad byr yn yr ysbyty rhwng 14 a 15 Chwefror 2018 ac yn dilyn ei diagnosis o Syndrom Coronaidd Aciwt, term a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o gyflyrau sy'n gysylltiedig â lleihad sydyn yn llif y gwaed i'r galon. Dywedodd Mr B y dylid wedi gallu atal marwolaeth ei wraig. Dywedodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol â fo a Mrs B am ei chyflwr ac na wnaeth ymchwilio'n briodol i'w gŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod yr hyn a ddigwyddodd i Mrs B mae'n debyg wedi'i achosi wrth i gyflwr calon a oedd ganddi ers tro byd, er heb ei adnabod, waethygu'n sylweddol a sydyn iawn. Unwaith i Mrs B dderbyn diagnosis o ACS, ni dderbyniodd feddyginiaeth a monitro perthnasol a phriodol ar gyfer ei chyflwr calon ac ni chafodd ei hanghenion diabetig eu rheoli'n ddigonol. Fodd bynnag, o ystyried bod cyflwr Mrs B wedi dirywio'n sydyn a disymwth, mae'n debyg na fyddai hyd yn oed y gofal gorau wedi newid y canlyniad.

Ni ddaeth yr Ombwdsmon o hyd i unrhyw dystiolaeth fod y diagnosis na'r cynllun gofal wedi eu hegluro i Mrs a Mr B yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Ymddiheurodd y Bwrdd Iechyd am hyn gan atgoffa'r staff perthnasol o bwysigrwydd cyfathrebu amserol, effeithiol ac ystyrion. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â hysbysu a diweddarau Mr B yn llawn am y broses o ymchwilio i'w gŵyn. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro am y methiant hwn ac i roi adborth i staff perthnasol ar y pwyntiau dysgu hyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201803425 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mrs J na wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddilyn y gweithdrefnau cywir wrth dderbyn ei merch, Ms L, ar 3 Gorffennaf 2017 o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd Mrs J hefyd yn anhapus â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniodd Ms L pan oedd yn glaf mewnol mewn ysbyty iechyd meddwl arbenigol rhwng 3 a 18 Gorffennaf.

Casglodd ymchwiliad yr Ombwdsmon fod tri unigolyn a fu'n rhan o asesu Ms L wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac wedi egluro'n briodol beth oedd y rhesymau dros fod angen ei derbyn i'r ysbyty. Casglodd ei ymchwiliad hefyd fod manylion Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi eu rhoi i Mrs J er mwyn rhoi cyfle iddi apelio'r penderfyniad i dderbyn ei merch i'r ysbyty. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chadarnhau y rhan yma o'r gŵyn.

Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yn glir yn y nodiadau pa unedau arbenigol penodol eraill a ystyriwyd ar gyfer Ms L. Ni wnaeth yr Ombwdsmon argymhellid ffurfiol ar hyn; fodd bynnag, cafodd y Bwrdd Iechyd ei wahodd ganddo i ystyried ei sylwadau wrth wneud asesiadau yn y dyfodol.

Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn ystyried bod staff yr ysbyty iechyd meddwl arbenigol wedi ystyried iechyd corfforol Ms L yn briodol pan roddwyd triniaeth iddi ar gyfer haint llwybr wrinol. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon na wnaeth y staff ôl-ddilyn atgyfeiriad gastroberfeddol. Er na chafodd hyn effaith negyddol ar ofal Ms L yn gyffredinol, cafodd y Bwrdd Iechyd unwaith eto ei wahodd ganddo i ystyried ei sylwadau ac i feddwl sut i atal pethau fel hyn rhag digwydd eto.

Fodd bynnag, casglodd yr Ombwdsmon er bod y Bwrdd Iechyd wedi dilyn y drefn iawn wrth ddefnyddio neilltuo dan glo, ac wedi cofnodi'n glir pan oedd hynny wedi digwydd, nid oedd nodiadau meddygol Ms L yn dangos yn glir a oedd cyngor ymddygiad arbenigol ar gael a allai, ym marn yr Ombwdsmon, fod wedi golygu nad oedd angen defnyddio gymaint o neilltuo dan glo. Ystyriodd yr Ombwdsmon fod yr ansicrwydd hwn yn anghyfiawnder i Ms L a chadarnhaodd y rhan yma o'r gŵyn.

Yn olaf, bu'r Ombwdsmon yn ystyried ymdriniaeth y Bwrdd Iechyd o hawliau dynol Ms L, yn benodol Erthyglau 3, 6 ac 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Casglodd yr Ombwdsmon na chafodd y trothwy ar gyfer y tair Erthygl eu cwrdd a bod yr hyn a wnaeth y Bwrdd Iechyd yn angenrheidiol, yn enwedig gyda defnyddio neilltuo dan glo nid yn unig er mwyn diogelu Ms L, ond i atal niwed i bobl eraill.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mrs J am y methiannau ac yn rhannu'r adroddiad â'r staff perthnasol er mwyn dysgu gwersi ac adnabod unrhyw welliannau.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201803042 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mrs D am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei diweddar fam, Mrs M, yn Adran Achosion Brys (ED) Ysbyty Glangwili ar ôl iddi gael codwm pan oedd allan yn siopa. Cwynodd Mrs D fod clinigwyr, ar ôl cyflawni sganiau o ben a gwddf ei mam, wedi tynnu ei cholera gwddf (oedd wedi'i gosod fel mesur rhagofalus) ar y sail bod y sgan o'i phen 'i gyd yn glir'. Aeth Mrs M ymlaen i gael ataliad ar y galon. Er llwyddo i'w dadebru, roedd adroddiad ar wahân yn fuan wedyn o sgan Mrs M o'i gwddf wedi adnabod bod un o esgyrn ei gwddf wedi torri. Cwynodd Mrs D fod cyflwr ei mam wedi dirywio'n sydyn iawn ar ôl i'r pethau hyn ddigwydd a'i bod wedi marw ymhen ychydig ddyddiau. Cwynodd Mrs D hefyd fod gormod o oedi a diffygion wedi bod yn y ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn am y materion hyn.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mrs D fod clinigwyr wedi camfarnu'n ddifrifol yn tynnu coler gwddf Mrs C yn rhy fuan. Fodd bynnag, nid oedd digon o dystiolaeth i benderfynu fod ymateb Mrs M i dynnu'r goler yn ataliad ar y galon mewn gwirionedd (gallai fod wedi llewygu o ganlyniad i arrhythmia) nac i benderfynu bod ei llewyg wedi cyfrannu at ei dirywiad a'i marwolaeth. Er hynny roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod yr ansicrwydd hwn yn do'i hun yn anghyfiawnder i Mrs M a'i theulu, ac felly i'r graddau hynny, cadarnhaodd y rhan yma o'r gŵyn. Penderfynodd hefyd chadarnhau cwyn Mrs D am sut y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn anfon llythyr manwl yn ymddiheuro wrth Mrs D ac yn talu cyfanswm o £1,500 iddi. Argymhellodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu'r adroddiad â meddygon, nyrsys a radiolegwyr ED yr ysbyty er mwyn gallu trafod a myfyrio ar ei gynnwys. Argymhellodd yr Ombwdsmon hefyd fod copi o'r adroddiad hwn yn cael ei rannu â darparwr radiolego-bell y Bwrdd Iechyd a bod y Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod archwiliadau o gywirdeb ac amseroedd cwblhau astudiaethau delweddu brys allanol yn cael eu cyflawni'n rheolaidd.

Yn olaf, argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr adroddiad yn cael ei rannu â'r Tîm Pryderon ac y dylid eu hatgoffa bod angen sicrhau bod ymatebion i gwynion ffurfiol yn adlewyrchu'r wybodaeth mewn cofnodion meddygol yn gywir ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r rheoliadau ar drin cwynion.

Cadarnhaodd a chytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu'r argymhellion hyn.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Apwyntiadau/derbyniadau/gweithdrefnau rhyddhau a throsglwyddo](#)

[Achos Rhif: 201805129 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mr X am y gofal a dderbyniodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ("y Bwrdd Iechyd") ar ôl ei ddiagnosis o ganser y prostrad ym mis Mai 2018. Yn benodol, cwynodd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â threfnu triniaeth amserol ar ei gyfer yn dilyn ei ddiagnosis, wedi methu â monitro faint o amser y bu'n rhaid iddo aros cyn derbyn triniaeth (ar ôl ei atgyfeirio at ysbyty yn Lloegr) ac wedi methu ei ddiweddarau. Cwynodd Mr X hefyd fod ymateb ffurfiol y Bwrdd Iechyd i'w gŵyn yn anfoddhaol.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi atgyfeirio Mr X yn brydlon at yr ysbyty yn Lloegr ac nad oedd ganddo unrhyw reolaeth dros restr aros yr ysbyty hwnnw. Ni chadarnhaodd yr agwedd hon ar y gŵyn. Fodd bynnag, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu ei driniaeth gan yr ysbyty, roedd yn parhau i fod yn gyfrifol am gadw trosolwg ar Mr X. Dylai fod wedi bod yn ymwybodol o'r oedi ac wedi darparu pwynt cyswllt i Mr X fel y gallai godi pryderon a gofyn am wybodaeth. Yn hyn o beth, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud unrhyw ymgais i ofyn am wybodaeth gan yr ysbyty yn Lloegr am gryn amser ar ôl i Mr X hysbysu'r Bwrdd gyntaf am yr oedi gyda derbyn dyddiad ar gyfer ei lawdriniaeth. Ychwaith nid oedd Mr X wedi derbyn unrhyw ddiweddariad ystyrlon a chydlynus ar y sefyllfa o gwbl. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r gŵyn yn anfoddhaol oherwydd ei fod wedi'i roi cyn derbyn y wybodaeth a ofynnwyd amdani gan yr ysbyty yn Lloegr. Casglodd hefyd fod yr ymateb i'r gŵyn yn gamarweiniol wrth ddatgan bod yr ysbyty'n ymchwilio i'r gŵyn. O ganlyniad, cadarnhaodd y rhannau hyn o'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mr X ac yn cynnig tâl o £250 iddo i adlewyrchu ei ganfyddiadau. Argymhellodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu ei adroddiad â'r staff a fu'n rhan o ddelio â'r gŵyn er mwyn myfyrio ar ei ganfyddiadau. Ar ben hynny, argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod pwynt cyswllt yn cael ei ddarparu i bob claf sy'n cael ei atgyfeirio i dderbyn triniaeth canser y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn gallu codi pryderon a derbyn gwybodaeth os bydd oedi o'r fath yn digwydd. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu'r argymhellion i gyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201803765 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms A fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi diagnosis a thrin yr hyn oedd wedi achosi lymffadenopathi (afiechyd yn effeithio ar y nodau lymff) ei mam ("Mrs B") rhwng Mawrth 2016 a Mehefin 2017 ac wedi methu â rhagnodi presgripsiwn o Prednisolone (meddyginiaeth steroid a ddefnyddir yn aml at gyflyrau ymfflamychol) a rheoli anghenion maeth Mrs B yn ystod ei arhosiad olaf yn yr ysbyty.

Casglodd yr Ombwdsmon fod camau priodol wedi eu cymryd i geisio cytuno ar ddiagnosis yng nghyswllt lymffadenopathi Mrs B. Casglodd hefyd, er na ddefnyddiwyd Prednisolone yn ystod arhosiad olaf Mrs B yn yr ysbyty, na allai ddweud fod hyn wedi gwanhau Mrs B na'i hatal rhag derbyn triniaeth briodol. Ni gadarnhaodd y cwynion hyn.

Casglodd yr Ombwdsmon na chafodd canllawiau perthnasol ar reoli maeth eu dilyn yn ystod arhosiad olaf Mrs B yn yr ysbyty ac y byddai wedi bod yn briodol ei hatgyfeirio at ddietydd o ystyried y pwysau a gollodd a'i diffyg awydd bwyd. Cadarnhaodd y gŵyn hon.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd argymhellion yr Ombwdsmon i ymddiheuro wrth Ms A, atgoffa staff perthnasol o bwysigrwydd dilyn y canllawiau perthnasol ar reoli cleifion sydd wedi colli pwysau/gyda maeth gwael ac adolygu eu hamserlen hyfforddiant i ystyried a oes angen hyfforddiant gloymi ar reoli maeth.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201803224 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms B am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd hi a'i babi, oedd wedi'i eni cyn pryd, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dywedodd Ms B fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rheoli a monitro ei gofal cyn-geni, ei gofal yn ystod esgor a'i gofal ôl-eni'n briodol, ei fod wedi methu â thrin ei babi'n foddhaol i'w helpu i oroesi a'i fod wedi rhoi pigiad iddo ar ôl ei eni.

Casglodd yr Ombwdsmon fod babi Ms B wedi'i eni'n rhy gynnar i oroesi yn ôl arferion safonol, bod y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd yn rhesymol ac nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael pigiad; felly ni chadarnhawyd y cwynion hyn. Casglodd yr Ombwdsmon er bod y gofal a'r driniaeth glinigol a dderbyniodd Ms B, ar y cyfan, yn rhesymol ac yn unol ag arferion safonol, na wnaeth y tîm newydd-anedig drafod opsiynau gyda hi na'i phartner yn ystod yr esgor, gan warafun unrhyw gyfle iddynt lwyr ddeall sefyllfa a oedd yn un anodd a hynod drallodus. Felly cadarnhawyd y rhan yma o'r gŵyn yn rhannol.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro wrth Ms B am y methiant ac i esbonio wrthi sut y gwneir trefniadau fel bod staff newydd-anedig yn siarad â theuluoedd mewn sefyllfa debyg, ac i rannu'r adroddiad â'r holl staff meddygol perthnasol er mwyn myfyrio'n feirniadol arno.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201803577 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mrs A am y driniaeth a'r gofal a dderbyniodd ei diweddar ŵr, Mr A, ar ôl cael ei dderbyn i Ysbyty Brenhinol Gwent fel achos brys. Yn benodol, cwynodd Mrs A am y driniaeth amhriodol gyda masg anadlu NIV ("NIV"), methiant yr ysbyty i ddiwallu anghenion maeth a diod Mr A, y cyfathrebu gwael, y methiant i adael iddi dreulio amser gyda Mr A ar ôl iddo farw, ac am yr ymateb gwael a hwyr iawn i'w chwyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y driniaeth a dderbyniodd Mr A gyda'r NIV yn briodol i'r cyflwr a gyflwynodd â fo, ac er na allai yfed na bwyta, bod ei anghenion maeth a diod hefyd wedi cael eu monitro'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd y staff nyrsio bob amser wedi cyfathrebu triniaeth Mr A yn glir a chafwyd bod agweddau ar ofal personol Mr A ar ôl iddo farw, a'r cymorth a dderbyniodd Mrs A a'i theulu wedyn, wedi cael eu rhuthro ac yn ansensitif. Yn benodol, roedd methiant i sicrhau y gallai Mrs A dreulio amser gyda Mr A ar ôl iddo farw. Roedd ymateb y Bwrdd Iechyd i gwyn Mrs A hefyd wedi methu â llwyr ateb y pryderon a godwyd ganddi ynghylch yr ohebiaeth estynedig a'r oedi diangen.

Argymhellodd yr Ombwdsmon, o fewn mis i gyhoeddi'r adroddiad, fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro wrth Mrs A am y methiannau ac yn rhannu canfyddiadau ei ymchwiliad gyda'r staff nyrsio perthnasol.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201707595 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mrs A am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei thad, Mr B, gan gyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Yn benodol, cwynodd fod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd gormod o amser i ddiagnosisio bod gan Mr B ganser y coluddyn, wedi methu ag egluro bod diagnosis o ganser y coluddyn yn un o ganlyniadau posib yr ymchwiliadau a wnaed, wedi methu ag adnabod rhwystr yn wrethra Mr B cyn ei lawdriniaeth hemicolectomi (i dynnu rhan o'r coluddyn mawr), nad oedd y broses ganiatâd ar gyfer yr hemicolectomi'n briodol ac na chafodd yr hemicolectomi ei wneud i safon briodol. Cwynodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rheoli poen Mr B ar ôl ei lawdriniaeth, wedi methu ag adnabod a thrin gollyngiad anastomatig ôl-lawdriniaeth Mr B (yr asiad llawfeddygol yn gollwng) yn brydlon, ac nad oedd wedi rhyddhau Mr B yn briodol o'r ysbyty, yn enwedig o ran gwneud trefniadau gofal a chymorth ar gyfer bag stoma Mr B.

Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gwyn am yr oedi gyda'r diagnosis oherwydd, er nad oedd y targed wedi'i gwrdd, yn yr achos arbennig hwn ni effeithiodd ar driniaeth Mr B wedyn. Chadarnhaodd y gwyn na chafodd Mr B ei hysbysu fod diagnosis o ganser yn un o ganlyniadau posib yr ymchwiliadau oedd yn cael eu gwneud. Achosodd hyn anghyfiawnder i Mr B a'i deulu oherwydd roedd y diagnosis yn annisgwyl ac yn sioc. Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw beth i awgrymu fod wrethra Mr B wedi culhau cyn ei lawdriniaeth, a chasglodd hefyd fod yr hemicolectomi wedi'i gyflawni'n briodol. Ni chadarnhaodd y rhannau hyn o'r gwyn. Penderfynodd yr Ombwdsmon chadarnhau'r cwynion am reoli poen ac y dylai'r ail lawdriniaeth fod wedi digwydd ychydig ddyddiau'n gynt nag y digwyddodd. Er mae'n debyg y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath hyd yn oed pe bai'r llawdriniaeth wedi digwydd yn gynt, roedd yr anghysur ychwanegol a'r trallod oherwydd yr oedi'n anghyfiawnder i Mr B a'i deulu. Yn olaf, er y casglodd yr Ombwdsmon fod y penderfyniad i ryddhau Mr B yn briodol a bod y cymorth a roddwyd ar gyfer ei stoma ar y cyfan yn rhesymol, nid oedd unrhyw dystiolaeth iddo dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig wrth gael ei ryddhau. Roedd hyn yn anghyfiawnder iddo fo a'i deulu, oedd wedi'i chael yn anoddach ymdopi ar ôl mynd adref.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (fel y mae'n cael ei alw bellach) yn ymddiheuro wrth Mrs A a Mr B ac yn talu £1,500 i adlewyrchu'r tralod a'r gofid a achoswyd gan y methiannau. Argymhellodd hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad o sgoriau poen ar y ward dan sylw, yn atgoffa'r staff nyrsio ynghylch rheoli poen ac yn ystyried cyflwyno rhestr ryddhau i sicrhau bod yr holl gamau perthnasol wedi eu cymryd cyn rhyddhau cleifion.

Ni Chadarnhawyd

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201803475 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr Y nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ar ei symptomau ar ôl iddo gael ei dderbyn droeon i'r Adran Achosion Brys ("ED") rhwng Chwefror a Gorffennaf 2017. O ganlyniad, dywedodd Mr Y iddo fynd yn sâl iawn gan arwain at gael ei dderbyn ar frys ar 31 Gorffennaf 2017 a chael llawdriniaeth coluddyn bach (i dynnu rhan o'r coluddyn sydd wedi'i rwystro neu'n friwedig). Credai Mr Y y dylai ei gyflwr fod wedi cael ei ddiagnosisio a'i drin yn gynt.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a'r driniaeth gan y Timau ED a Llawfeddygol dros y cyfnod hwn o fewn ffiniau ymarfer clinigol derbyniol. Nid oedd y rhwystr yn ei goluddyn bach a gafodd ei ddiagnosisio'n dilyn ei dderbyn ar 31 Gorffennaf, gan arwain at dynnu rhan o'i goluddyn bach, yn gysylltiedig â'r adegau eraill pan dderbyniwyd Mr Y i'r ysbyty. Nid oedd ei symptomau'n awgrymu bod ganddo rwystr yn ei goluddyn bach ac nid oedd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cael llawdriniaeth gynnar yn ystod unrhyw un o'r troeon i'r ED/adolygiadau llawfeddygol cyn 31 Gorffennaf. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201803376 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr Y am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd gan y Bwrdd Iechyd (rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017) ar gyfer ei golesteatoma. Cwynodd hefyd am yr oedi'n trefnu'r llawdriniaeth, er ei fod ar y rhestr aros frys.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a'r driniaeth ar gyfer colesteatoma Mr Y yn briodol a bod yr atgyfeiriad i gael archwiliad dan anesthetig yn rhesymol oherwydd mai rheolaeth lawfeddygol oedd y llwybr priodol i drin colesteatoma Mr Y. Roedd hefyd yn fodlon nad oedd unrhyw oedi wedi bod gyda threfnu llawdriniaeth Mr Y. Ni chadarnhawyd cwyn Mr Y.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201803223 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms A fod yr Ymgynghorydd Arbenigol mewn Meddygaeth Orthopaedig ("yr Ymgynghorydd") wedi ei chynghori na allai ei thrin gyda phigiadau steroid oherwydd nad oedd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ("NICE") yn argymhell y driniaeth honno mwyach a'i fod wedi rhyddhau Ms A o'i ofal. Dywedodd Ms A fod ei Meddyg Teulu, o ganlyniad, wedi ei hatgyfeirio at ymgynghorydd arall am driniaeth bellach. Dywedodd Ms A pe bai'r Ymgynghorydd ei hun wedi ei hatgyfeirio, y byddai wedi osgoi'r oedi a'r boen a gafodd yn dilyn hynny. Cwynodd Ms A hefyd am sut y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chwŵyn.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod yr Ymgynghorydd wedi dilyn polisi'r Bwrdd Iechyd oedd yn seiliedig ar ganllawiau NICE a chasglodd felly fod rhyddhau Ms A yn rhesymol a phriodol. Casglodd hefyd nad oedd unrhyw reswm clinigol pam y dylai'r Ymgynghorydd fod wedi ei hatgyfeirio at arbenigwr clinigol arall a bod atgyfeirio gofal Ms A yn ôl at ei Meddyg Teulu eto'n beth rhesymol a phriodol i'w wneud.

O ran pryder Ms A am sut y deliwyd â'i chwyn, casglodd yr ymchwiliad fod ymateb y Bwrdd Iechyd yn rhesymol ac amserol. Felly penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chadarnhau'r naill ran na'r llall o gwyn Ms A.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Gofal parhaus](#)
[Achos Rhif: 201805593 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mr A drwy gwmni o Gyfreithwyr fod ystyriaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o hawliad ôl-weithredol am arian gofal iechyd parhaus ("CHC") o dan y GIG, ar gyfer ei ddiweddar fam Mrs A, yn wallus. Yn benodol, lleisiodd bryder fod y Panel Adolygu Annibynnol ("IRP") a fu'n ystyried yr hawliad wedi penderfynu nad oedd Mrs A yn gymwys am yr arian CHC o'r dyddiad y dechreuodd yr hawliad er bod IRP gwahanol wedi penderfynu ei bod yn gymwys i fyny at ac yn cynnwys y diwrnod cynt. Credai Mr A nad oedd amgylchiadau Mrs A wedi newid rhwng y dyddiadau hynny.

Er iddo gadarnhau bod y gwahaniaeth ym mhenderfyniadau'r ddau IRP yn sicr o ymddangos yn rhyfedd i Mr A, casglodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd a'r IRP wedi dilyn y broses gywir o benderfynu'r hawliad ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o gamweinyddu gyda sut yr oeddent wedi ystyried y mater. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gwyn.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201802548 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mr Q fod Tim Iechyd Meddwl Cymunedol ("CMHT") Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi anwybyddu diagnosis blaenorol ei ferch, Ms R, ac wedi ei rhyddhau o'i ofal gan felly ei hamddifadu o driniaeth a chymorth oedd taer ei angen arni. Dywedodd Mr Q hefyd fod y CMHT wedi methu ag atgyfeirio Ms R ymlaen i dderbyn cymorth priodol ac nad oedd wedi ystyried effaith ei chyflwr ar ei theulu agos.

Casglodd ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y CMHT wedi gwneud popeth allai dros Ms R ac nad oedd unrhyw dystiolaeth nad oedd wedi cymryd ei phroblemau iechyd meddwl o ddifrif. Roedd y Bwrdd Iechyd yn gwbl ymwybodol o ddiagnosis blaenorol Ms R flynyddoedd ynghynt, fodd bynnag roedd asesiadau diweddar wedi dangos nad oedd bellach yn bodloni'r trothwy ar gyfer yr un diagnosis ac roedd wedi cael ei rhyddhau'n briodol o'i wasanaethau.

Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod cymorth priodol wedi cael ei adnabod a'i gynnig i Ms R, a Mr Q, ar ôl penderfynu peidio â darparu gwasanaethau'r CMHT i Ms R. Nododd ei bod yn drueni na wnaeth Ms R ddefnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd gallent fod wedi bod o gymorth iddi.

Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon gwyn Mr Q.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201802702 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr A fod cyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi methu â thrin yr anaf i'w ben-glin gan achosi poen diangen dros gyfnod hir iddo.

Casglodd yr ymchwiliad fod ymchwiliadau priodol i'r anaf pen-glin wedi eu gwneud. Casglodd yr ymchwiliad hefyd fod penderfyniad y Llawfeddyg Orthopaedig Cyntaf i atgyfeirio Mr A i gael ffisiotherapi, ac at y Clinig Rheoli Poen, yn rhesymol. Yn olaf, casglodd yr ymchwiliad fod penderfyniad y Llawfeddyg Orthopaedig Cyntaf i beidio â rhoi llawdriniaeth i Mr A yn rhesymol ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo. Ni chadarnhawyd y gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201804209 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X am yr oedi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn atgyfeirio ei frawd, Mr Y, i gael llawdriniaeth cyn i'w ganser ysgyfaint gyrraedd y pwynt pryd na fyddai llawdriniaeth yn bosib. Lleisiodd Mr X hefyd bryderon am ba mor gywir a chyflawn oedd ymateb y Bwrdd Iechyd i'w gŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon, er bod oedi rhwng diagnosis Mr Y a'i atgyfeirio i gael llawdriniaeth, bod yr oedi hwnnw'n angenrheidiol oherwydd bod angen trin ei fflw'n gyntaf ac ymchwilio i'r problemau cof a dryswch oedd ganddo. Nododd yr Ombwdsmon hefyd fod ychydig o oedi wedi bod rhwng y penderfyniad i atgyfeirio Mr Y i gael llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lloegr, ac anfon y llythyr atgyfeirio ffurfiol. Casglodd na wnaeth yr oedi hyn arwain at sefyllfa lle nad oedd llawdriniaeth ar y tiwmor yn bosib. Roedd hyn oherwydd nad oedd union natur y tiwmor, fel ei ymwneud â'r galon a rhai o'r prif wythiennau, yn glir o'r sganiau cyn y llawdriniaeth. O ganlyniad, dim ond yn ystod y llawdriniaeth ei hun y cafodd union natur y tiwmor ei sefydlu a chanfod felly nad oedd llawdriniaeth arno'n bosib. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod yr ymateb i'r gŵyn, ar y cyfan, wedi rhoi esboniad rhesymol o'r oedi gydag atgyfeirio Mr Y i gael llawdriniaeth ac yn adlewyrchiad cywir o'r cofnodion meddygol. Felly ni chadarnhaodd y cwynion.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Materion rhestr cleifion Achos Rhif: 201807146 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Miss G am yr oedi a brofodd ei mam, Mrs X, wrth aros am lawdriniaeth i gael penglin newydd. Cafodd Mrs X ei hatgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd gan ei Meddyg Teulu ym mis Mawrth 2018 a chael ei rhoi ar restr aros brys y Llawfeddyg ym mis Medi 2018. Penderfynodd Mrs X gael y llawdriniaeth yn breifat yn Ionawr 2019.

Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod bod amseroedd aros am driniaeth weithiau'n mynd dros amser targed y GIG o dderbyn triniaeth o fewn 36 wythnos i atgyfeirio. Nododd fod Mrs X wedi aros tua 41 wythnos pan gafodd y llawdriniaeth yn breifat; fodd bynnag, ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth na chafodd llawdriniaeth Mrs X ei blaenoriaethu'n briodol, na chwaith bod ei hangen clinigol mor ddrwg fel y dylai fod wedi cael mwy o flaenoriaeth ar ôl cael sawl codwm neu'n dilyn llythyr gan ei Meddyg Teulu'n gofyn am roi blaenoriaeth uwch i'r llawdriniaeth. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsman y gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201805217 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Miss S am ofal ei mam yn Ysbyty Maelor Wrecsam rhwng 22 Chwefror a 5 Mawrth 2018. Roedd ei chŵyn yn ymwneud â rhagnodi meddyginiaeth, diffyg gofal 'cydgysylltiedig' a chyfathrebu rhwng y timau, y diagnosis o niwmonia wedi'i 'gael yn y gymuned' ac ansawdd y cofnodion clinigol.

Casglodd yr Ombwdsmon fod atal y meddyginiaethau yr oedd Mrs S wedi bod yn eu cymryd yn flaenorol yn briodol o ystyried y dirywiad ym mherfformiad ei harenau, ac na chafodd effaith andwyol ar ei chalon. Roedd Mrs S wastad wedi bod dan ofal Ymgynghorwyr yn eu capasiti fel Meddygon Ymgynghorol, ac nid oedd unrhyw ddiffyg cyfathrebu rhwng y timau dan sylw. Cytunodd Gynghorydd Proffesiynol yr Ombwdsmon fod Mrs S wedi bod yn dioddef o niwmonia a'i bod wedi derbyn triniaeth briodol. Casglodd yr Ombwdsmon fod y cofnodion o safon dderbyniol. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsman y gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201803471 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mrs T am y driniaeth a gafodd am boen cefn rhwng Gorffennaf a Hydref 2017. Er ei bod wedi cael sesiynau ffisiotherapi a hydrotherapi, roedd Mrs T wedi parhau i gwyno am stiffni a phoen ac wedi gofyn am gael sgan. Dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai hyn ond yn cael ei wneud lle bo angen ei wneud, ac i oleuo triniaeth yn y dyfodol; ni fynychodd Mrs T apwyntiad pellach ac yna cafodd sgan preifat gyda phigiadau a llawdriniaeth i ddilyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod Mrs T wedi derbyn triniaeth briodol oedd yn addas i'w chyflwr. Roedd canllawiau'r Bwrdd Iechyd ar sganio'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol ac roedd yn bosib, pe bai Mrs T wedi mynychu ei hapwyntiad olaf, y byddai wedi cael ei hatgyfeirio i gael ymchwiliadau pellach neu ail farn. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsman y gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201802485 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Ms B am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rhwng 2014 a 2016 ar gyfer poen abdomen, cerrig coden y bustl a thynnu coden y bustl. Dywedodd Ms B y cafodd wybod yn 2015 nad oedd cerrig coden y bustl yn ddim i boeni yn eu cylch ac na chymrodd y Bwrdd Iechyd ei chyflwr o ddifrif hyd nes cael ei derbyn i'r ysbyty ym Mehefin 2016 gyda phroblemau coden y bustl. Dywedodd Ms B y bu'n rhaid tynnu ei choden fustl ac nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu gofal a thriniaeth briodol iddi ar ôl cael ei derbyn ac ar ôl cael y llawdriniaeth.

Casglodd yr Ombwdsmon fod Ms B wedi cael ei gweld am symptomau heb fod yn gysylltiedig â cherrig coden y bustl rhwng 2014 a Mehefin 2016 a bod y gofal a'r driniaeth glinigol a dderbyniodd dros y cyfnod hwn, ac ar ôl ei derbyn a chael y llawdriniaeth, o safon dderbyniol ac yn unol â chanllawiau. Daeth yr Ombwdsmon hefyd o hyd i rai diffygion gyda chadw cofnodion a gyda chynllunio'r gofal nyrsio dros gyfnod byr o ddau ddiwrnod ond na effeithiodd hynny'n sylweddol ar gyflwr Ms B. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymddiheuro am hyn a chadarnhau hefyd ei fod wedi adnabod gwelliannau ac wedi cymryd camau i gywiro pethau. Felly ni chadarnhawyd cwynion Ms B.

Iechyd Dyffryn Dyfi – Canolfan Iechyd Machynlleth – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty
Achos Rhif: 201801972 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr B am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd gan Feddygfa yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymwneud â briw ar ei gefn a'r ffordd y deliodd â'i gŵyn. Dywedodd Mr B na wnaeth y Feddygfa asesu ei gyflwr yn briodol, eu bod wedi rhoi diagnosis anghywir o friw heintus ac wedi methu ei atgyfeirio'n brydlon i gael asesiad orthopaedig a sgan MRI. Dywedodd Mr B hefyd fod gwybodaeth am ei gyflwr yn ymateb y Bwrdd Iechyd i'w gŵyn yn anghywir ac wedi cael ei gamddechongli i gefnogi achos y Feddygfa.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a'r driniaeth glinigol a dderbyniodd Mr B gan y Feddygfa o safon dderbyniol ar y cyfan, ac yn unol â'r canllawiau. Daeth yr Ombwdsmon o hyd i rai diffygion mewn sut yr oedd y Feddygfa wedi cofnodi apwyntiadau ond na effeithiodd hynny'n sylweddol ar gyflwr Mr B. Fodd bynnag, ymddiheurodd y Feddygfa am y trallod a'r poen meddwl a achoswyd a'r trafferthion a gafodd Mr B. Roedd y Feddygfa wedi cadarnhau ei bod wedi adnabod pwyntiau dysgu ac wedi cynnig cyfarfod â Mr B i drafod ei ofal a'r newidiadau a wnaeth i gywiro pethau. Roedd y Feddygfa hefyd wedi cadarnhau na welodd gopi o ymateb terfynol y Bwrdd Iechyd cyn ei anfon at Mr B a chytunodd nad oedd yn gyson â'i gofnodion. Dywedodd y Feddygfa ei bod wedi cymryd camau i sicrhau y byddai'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol yn anfon ymatebion terfynol i gael eu hadolygu'n gyntaf cyn eu pasio i'r achwynydd. Felly ni chadarnhawyd cwynion Mr B.

MyDentist Tonyrefail – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty
Achos Rhif: 201804895 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Ms X am y driniaeth ddeintyddol a dderbyniodd mewn dwy ddeintyddfa rhwng 1 Mai a 25 Mehefin **2018**. Bu'r ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

- a) Y driniaeth a dderbyniodd Ms X rhwng 1 Mai a 25 Mehefin yn y Ddeintyddfa Gyntaf; a
- b) Y driniaeth a dderbyniodd Ms X rhwng 14 a 25 Mehefin yn yr Ail Ddeintyddfa.

Casglodd yr ymchwiliad fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd i Ms X ar y cyfan yn briodol, ac eithrio apwyntiad brys ar 14 Mehefin. Casglodd fod y deintydd wedi camfarnu wrth benderfynu ar driniaeth briodol i Ms X yn ystod yr apwyntiad hwn. Achosodd hyn oedi o chwe diwrnod cyn i Ms X dderbyn y driniaeth briodol. Dros y cyfnod hwn, roedd Ms X mewn poen a ystyriwyd i fod yn anghyfiawnder. Yn ystod yr ymchwiliad, roedd yr Ail Ddeintyddfa wedi cydnabod ac ymddiheuro am fethu â thrin Ms X yn briodol.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr Ail Ddeintyddfa, o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad, yn anfon llythyr yn ymddiheuro wrth Ms X ac yn talu iawndal ariannol iddi am fethu â thrin ei symptomau'n briodol pan gyflwynodd fel claf brys ar 14 Mehefin.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201802680 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr O fod ei ddiweddar wraig wedi cael ei cham-ddiagnosio gyda sarcoidosis (cyflwr sy'n achosi llid ym meinweoedd y corff, fel arfer yn yr ysgyfaint, oherwydd bod system imiwnedd y corff wedi gorymateb) ac y dylai fod wedi cael diagnosis o'r diciâu, a bod y post mortem wedyn wedi cadarnhau hynny. Roedd gan Mr O bryderon y byddai ei wraig wedi byw pe bai wedi cael diagnosis o'r diciâu ac wedi derbyn triniaeth.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y clinigwyr a fu'n trin Mrs O wedi ystyried y posibilrwydd y gallai fod y diciâu arni, a'u bod wedi trefnu nifer o brofion priodol ar ei gyfer, a bod pob un yn negyddol. Ar sail y dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, roedd gan y clinigwyr hawl i ddod i'r casgliad ei bod yn annhebygol bod y diciâu ar Mrs O, ac nad oedd unrhyw ymchwiliadau eraill y gallent yn rhesymol fod wedi eu hystyried i eithrio'r posibilrwydd. Roedd y diagnosis o sarcoidosis yn rhesymol ar sail y symptomau oedd gan Mrs O ar y pryd. Felly ni chadarnhawyd cwynion Mr O.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201804142 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Ms C fod ei merch, Ms B, wedi derbyn diagnosis yn ddiweddar o Syndrom Ehlers Danlos Math III (EDS Math III – cyflwr genetig yn ymwneud â'r meinweoedd cysylltiol. Cyfeirir yn aml at Fath III fel y math 'gorsymudedd' ac fe'i nodweddir gan gymalau llac / ansefydlog). Cwynodd Ms C ei bod yn afresymol bod y Bwrdd Iechyd heb roi diagnosis o'r cyflwr hwn yn gynt i Ms B. Cwynodd hefyd fod y methiant i ddiagnosis Ms B yn gynt wedi cael effaith negyddol ar y gofal a'r driniaeth y dylai fod wedi eu derbyn.

Casglodd yr ymchwiliad ei bod yn rhesymol na wnaeth y Paediatregydd wneud diagnosis o EDS Math III oherwydd ei fod yn hytrach wedi defnyddio term cyfwerth sef Syndrom Gorsymudedd Anfalaen y Cymalau. Casglodd yr ymchwiliad fod profion clinigol priodol wedi eu gwneud i eithrio unrhyw achos corfforol sylfaenol ac na fyddai defnyddio'r term EDS Math III wedi newid y rheolaeth o'i gofal. Ar y cyfan roedd y rheolaeth o'i gofal yn briodol. Ni chadarnhawyd y gŵyn.

[Meddygfa Waterside – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201807222 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mrs X am y ffordd yr oedd Meddygfa yn ardal flaenorol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe erbyn hyn) wedi ymdrin â chanlyniadau profion gwaed ei merch ("Miss X") ym mis Tachwedd 2017. Yn benodol, cwynodd na wnaeth y Feddygfa ddehongli canlyniadau profion gwaed ei merch yn gywir a chymryd camau priodol. Dywedodd hefyd na wnaeth y Feddygfa roi gwybod i Miss X fod arni angen presgripsiwn am asid ffolig. Aeth Miss X ymlaen i ddatblygu papiloedema (lle mae'r ddisg optig yn chwyddo oherwydd pwysau'n cronni o gwmpas yr ymennydd) a derbyn diagnosis o orbwysedd mewngreuanol idiopathig. Oherwydd bod ei symptomau wedi gwaethygu, gan gynnwys amharu mwy ar ei golwg, cafodd 'siynt' ei ffitio ar gyfer Miss X.

Casglodd yr Ombwdsmon fod canlyniadau profion gwaed Miss X wedi cael eu dehongli'n gywir ac nad oedd angen trin y ddwy lefel fymryn yn uwch oedd wedi eu hadnabod. Penderfynodd hefyd ei bod yn annhebygol bod unrhyw gysylltiad achosol uniongyrchol rhwng yr hyn a wnaed (neu na wnaed) wrth ymateb i'r canlyniadau profion gwaed, a diagnosis Miss X nes ymlaen. Er ei bod yn bosib bod y lefelau fymryn yn uwch yn ymateb amhenodol i bwysau'n dechrau cronni o gwmpas yr ymennydd, nid oedd y diagnosis o orbwysedd mewngreuanol yn un y gellid disgwyl yn rhesymol i Feddyg Teulu ei wneud ar sail canlyniadau profion gwaed cychwynnol, a symptomau, Miss X.

Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod y dystiolaeth gofnodion yn awgrymu bod y Feddygfa wedi gwneud un ymgais i gysylltu â Miss X ynghylch canlyniadau ei phroffion gwaed. Er yn ystyried y byddai efallai'n rhesymegol pe bai'r Feddygfa wedi anfon llythyr at Miss X ar ôl yr ymgais aflwyddiannus i gysylltu dros y ffôn, nododd yr Ombwdsmon hefyd nad oedd yn ymddangos bod unrhyw ganllawiau'n rhagnodi pa gamau pellach y dylai'r Feddygfa fod wedi eu cymryd yn yr amgylchiadau. O ganlyniad, ni ystyriodd fod hyn yn fethiant ar ran y Feddygfa. Casglodd hefyd, hyd

yn oed os oedd y Feddygfa wedi methu â rhoi gwybod i Miss X am y canlyniadau a'r presgripsiwn, ei bod yn annhebygol bod y diffyg asid ffolig wedi achosi unrhyw niwed ac na fyddai wedi bod yn gysylltiedig â'i phroblemau meddygol nes ymlaen. Felly ni chadarnhaodd y cwynion. Fodd bynnag, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Feddygfa ystyried, fel pwyntiau dysgu, ailadrodd profion gwaed os oes unrhyw fân abnormaleddau, a defnyddio ffyrdd eraill o gysylltu â chleifion os yw ymgais i gysylltu dros y ffôn yn aflwyddiannus.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201803518 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mr A am y driniaeth a dderbyniodd rhwng 4 Awst 2017 a 16 Ebrill 2018, ar gyfer toriad i asgwrn sawdl ei droed dde, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd rheolaeth geidwadol yn opsiwn triniaeth afresymol ar gyfer asgwrn sawdl wedi torri ar y pryd, ac y byddai wedi bod angen sgan CT dim ond os oedd llawdriniaeth yn cael ei ystyried. Er i'r Ombwdsmon nodi y gallai gwaith ail-adeiladu cynnar efallai fod wedi osgoi toriad asgwrn na wnaeth asio'n iawn, ni allai ddod i'r casgliad ar sail y cyngor proffesiynol a dderbyniodd y byddai llawdriniaeth yn debygol o fod wedi lleihau risg y boen a'r anabledd parhaus a brofodd Mr A yn dilyn hynny. Roedd y ffaith bod angen cyflawni llawdriniaeth ar droed Mr A nes ymlaen, i drin y poen hwn, yn sefyllfa wahanol i'r ystyriaethau gwreiddiol ynghylch sut i drin lleoliad y toriad ac nid oedd o reidrwydd yn golygu y dylai ond fod wedi derbyn llawdriniaeth fel triniaeth gychwynnol. Credai hefyd na chafodd unrhyw broblemau cyfathrebu rhwng y Bwrdd Iechyd a Mr A, yn enwedig oherwydd y credai fod y toriad yn wreiddiol heb ddadleoli, effaith sylweddol ar y canlyniad yn y pen draw. O ganlyniad ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201805326 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mr X am yr inswlin a'r mesurau lladd poen a dderbyniodd ei ddiweddar nain, Mrs Y, yn Ysbyty Tywysoges Cymru rhwng 20 a 21 Mai 2018.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi rhagnodi'r dos cywir o inswlin i Mrs Y ar 20 Mai. Oherwydd bod cyflwr Mrs Y wedi dirywio yn oriau mân bore'r 21 Mai, roedd yn derbyn gofal diwedd bywyd ac nid oedd angen dosys pellach o inswlin. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi rhagnodi meddyginiaeth lladd poen fel rhan o ofal diwedd bywyd Mrs Y, ond oherwydd nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod Mrs Y mewn poen, ni chafodd y feddyginiaeth ei rhoi. Casglodd yr Ombwdsmon fod y rheolaeth o boen a gofal diwedd bywyd Mrs Y yn briodol. Ni chadarnhawyd cwynion Mr X felly.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty](#) [Achos Rhif: 201807345 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mr T fod Tim Nyrsys Ardal y Bwrdd Iechyd wedi methu â sicrhau bod y profion gwaed angenrheidiol, ar gais Meddyg Teulu ei fam ar 5 Mawrth 2018, wedi eu gwneud yn brydlon. Roedd y Meddyg Teulu wedi nodi y dylai'r profion gwaed fod wedi cael eu gwneud o fewn dau ddiwrnod gwaith, ond ni chymerwyd samplau tan ar ôl i Mr T holi am y mater ar 20 Mawrth.

Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd yr atgyfeiriad gan y Meddyg Teulu wedi mynd drwy'r hyb cyfathrebu priodol, sef y pwynt cyswllt ar gyfer pob cyfathrebu ac atgyfeiriad i'r Tîm Nyrsys Ardal. Felly ni chafodd y cais ei gyfathrebu i'r Tîm Nyrsys Ardal tan i Mr T holi am y mater. Unwaith y daeth i wybod am y cais, aeth y Tîm Nyrsys Ardal i weld mam Mr T y diwrnod canlynol i gymryd samplau ar gyfer y profion gwaed. Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn.

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201902115 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod adran gwasanaethau cyfreithiol y Bwrdd Iechyd wedi methu ag ysgrifennu ato i gynnig mesurau iawn yn ymwneud â'i gŵyn iddo, ar ôl i'r Bwrdd Iechyd benderfynu fod atebolrwydd cymwys yn bodoli yn ei achos. Roedd ei gŵyn i'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud ag oedi gyda diagnosis toriad ffêr ei ferch, Y, yn Ebrill 2018.

Ar ôl cysylltu â swyddfa'r Ombwdsmon, ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd at Mr S yn cynnig mesurau iawn. Ystyriodd yr Ombwdsmon fod y camau a gymrodd y Bwrdd Iechyd yn rhesymol, a chafodd y gŵyn ei setlo ar y sail yma.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201901618 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs A am y diffyg gweithiwr allweddol i helpu / cefnogi pobl gyda chanser y fron cam 4. Arhosodd yn anhapus ag ymateb y Bwrdd Iechyd iddi oherwydd teimlai nad oedd yr ymateb yn ateb ei phryderon. Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Bwrdd Iechyd sydd wedi cytuno y bydd aelod o'i Dîm Canser yn trefnu i gyfarfod â Mrs A i drafod ei anghenion a pha gymorth y gellir ei gynnig iddi. Mae achos Mrs A wedi'i setlo ar y sail yma.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
Achos Rhif: 201901657 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs C am yr amser y bu'n rhaid i'w gŵr aros am apwyntiadau a thriniaeth gan dair gwahanol adran yn y Bwrdd Iechyd. Cwynodd hefyd am y ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â'i chŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod ymateb y Bwrdd Iechyd i gŵyn Mrs X wedi egluro'r amseroedd aros am driniaeth; fodd bynnag, nid oedd wedi ateb ei phryderon am y system apwyntiadau na'r ffordd y deliwyd â'i chŵyn.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i roi ymateb pellach i Mrs X o fewn chwe wythnos yn ateb y pryderon a godwyd ganddi am y system apwyntiadau a'r ffordd y deliwyd â'i chŵyn.

Meddygfa Beechwood – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty
Achos Rhif: 201902070 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs X fod y Feddygfa wedi methu dair gwaith ag anfon atgyfeiriad ar gyfer ei mab at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ("CAMHS"). Dywedodd Mrs X fod yr oedi gydag anfon yr atgyfeiriad wedi gwaethygu iechyd meddwl ei mab.

Cytunodd y Feddygfa i wneud y canlynol er mwyn setlo cŵyn Mrs X:

Erbyn 9 Awst 2019:

- 1) Anfon ymateb ffurfiol at Mrs X yng nghyswllt ei chŵyn ac ymddiheuro wrthi am yr oedi cyn ymateb.
- 2) Egluro wrth Mrs X beth yw ei bolisi ar ddelio ag atgyfeirio at CAMHS, a pha ragofalon newydd sydd bellach yn eu lle i sicrhau bod atgyfeiriadau at CAMHS wedi cael eu derbyn.
- 3) Sicrhau bod gan y Feddygfa brosesau priodol yn eu lle i ddelio â chwynion am ei gwasanaeth, yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliadau 'Gweithio i Wella'.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201901149 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs A am y driniaeth a dderbyniodd yn ymwneud â phoen oedd ganddi yn ei ofariau, gan arwain at orfod eu tynnu. Cwynodd Mrs A nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried ei symptomau'n briodol a bod oedi sylweddol wedi bod yn ymateb i'w phryderon. Cwynodd Mrs A hefyd fod arni eisiau deall y gŵyn yn well, a chopi o adroddiad yr arbenigwr.

Casglodd yr Ombwdsmon fod oedi wedi bod cyn rhoi ymateb i Mrs A, gan gynnwys ei diweddarau'n amserol a'i hysbysu bod arbenigwr allanol wedi cael ei gyfarwyddo. Nododd yr Ombwdsmon hefyd nad oedd Mrs A wedi derbyn ymateb i'r pryderon oedd yn parhau i fod ganddi a barnodd fod y mater yn agored i'w ddatrys yn gynnar.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro wrth Mrs A, talu £250 iddi am ei hamser a'i thrafferth yn gwneud ei chŵyn, ateb y pryderon oedd yn parhau i fod ganddi, rhoi copi o adroddiad yr arbenigwr iddi a chynnal cyfarfod gyda hi i drafod ei phryderon.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201901666 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms S fod y Bwrdd wedi methu yn ei ofal a'i driniaeth ohoni yn ystod esgor ar ei babi ym mis Medi 2017. Cwynodd fod penderfyniad wedi'i wneud i eni'r babi drwy ddefnyddio gefeiliau ac episiotomi'n hytrach na rhoi mwy o amser iddi eni'r babi'n naturiol. Cwynodd hefyd am broffesiynoldeb ac agwedd un o'r bydrwagedd oedd yn gofalu amdani.

Ar ben hynny cwynodd am yr oedi gan y Bwrdd yn trefnu cyfarfod datrys lleol gyda hi'n dilyn ei ymateb ysgrifenedig i'w chŵyn ym mis Hydref 2017. Yn olaf, cwynodd nad oedd y Bwrdd wedi ei diweddarau ar un o'r camau a ddeilliodd o'r cyfarfod hwnnw i siarad â'r fydwraig dan sylw am ei hagwedd.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd yr achwynydd yn ymddangos i fod yn rhesymol. Fodd bynnag, roedd ganddo bryderon am y diffyg cyfathrebu gan y Bwrdd a bod oedi wedi bod cyn trefnu cyfarfod gyda hi i geisio datrys ei chŵyn yn lleol.

Cytunodd y Bwrdd i:

- 1) Ysgrifennu llythyr yn ymddiheuro ati'n cadarnhau ar ba ddyddiad y siaradwyd â'r fydwraig ac yn ymddiheuro am beidio â gwneud hynny'n gynt.
- 2) Cynnig tâl ex-gratia o £250 iddi i gydnabod ei hamser a'i thrafferth yn gwneud ei chŵyn.

Hyn i'w gwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad llythyr fy mhenderfyniad.

Mae'r Ombwdsmon o'r farn bod hyn yn datrys y gŵyn hon yn rhesymol.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201901118 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mrs X am y driniaeth a dderbyniodd ei diweddar ŵr gan y Bwrdd Iechyd yn Chwefror 2018 pan gafodd ei ddiagnosio gyda charsinoma hepatogellog. Cwynodd Mrs X fod y gofal a dderbyniodd ei gŵr yn disgyn o dan y safonau disgwylidig. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i gŵyn wreiddiol Mrs X, roedd yn parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb oedd wedi codi pryderon pellach a ddylai, yn ei barn hi, gael sylw.

Nododd y Swyddog Ymchwilio nad oedd y pryderon y ceisiodd Mrs X eu codi â'r Ombwdsmon wedi cael eu codi'n flaenorol â'r Bwrdd Iechyd. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys a ystyriwyd meddyginiaeth bresennol a chyflyrau meddygol (iechyd corfforol a meddwl) ei gŵr yn iawn, a'r diffyg cyfathrebu rhwng y Bwrdd Iechyd a'r teulu.

Ar ôl trafod gyda'r Bwrdd Iechyd, cytunodd i roi ymateb ysgrifenedig pellach i Mrs X o fewn 30 diwrnod gwaith i gyhoeddi llythyr penderfyniad yr Ombwdsmon.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y camau y dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n eu cymryd yn rhesymol ac y byddent yn datrys cwyn Mrs X.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201901111 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mrs X am y driniaeth a dderbyniodd ei diweddar ŵr gan y Bwrdd Iechyd rhwng Medi 2017 a Chwefror 2018 pan gafodd ei ddiagnosio gyda charsinoma hepatogellog. Cwynodd Mrs X fod y gofal a dderbyniodd ei gŵr yn disgyn o dan y safonau disgwylidig. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i gŵyn wreiddiol Mrs X, roedd yn parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb oedd wedi codi pryderon pellach a ddylai, yn ei barn hi, gael sylw.

Nododd y Swyddog Ymchwilio nad oedd y pryderon y ceisiodd Mrs X eu codi â'r Ombwdsmon wedi cael eu codi'n flaenorol â'r Bwrdd Iechyd. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys a ystyriwyd cyflyrau meddygol presennol (iechyd corfforol a meddwl) ei gŵr; a roddwyd meddyginiaeth lladd poen priodol ac a gafodd archwiliadau priodol eu cyflawni'n dilyn y llawdriniaeth; ac amgylchiadau marwolaeth ei gŵr.

Ar ôl trafodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, cytunodd i roi ymateb ysgrifenedig pellach i Mrs X o fewn 30 diwrnod gwaith i gyhoeddi llythyr penderfyniad yr Ombwdsmon.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y camau y dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n eu cymryd yn rhesymol ac y byddent yn datrys cwyn Mrs X.

[Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru – Gwasanaethau Ambiwllans](#)
[Achos Rhif: 201901795 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Miss X i'r Ombwdsmon am yr oedi cyn i ambiwlans o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru gyrraedd ar gyfer ei diweddar fam yn dilyn gwneud galwad frys. Er bod Miss X wedi egluro cyflwr ei mam wrth staff galwadau brys yr Ymddiriedolaeth, roedd yn ddiog bod yr Ymddiriedolaeth wedi categorio achos brys ei mam fel "Oren 1" yn lle'r categori uchaf posib sef "Coch".

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod agweddau eraill ar y cwynion a wnaeth Miss X iddo y teimlai fod Miss X wedi derbyn ymateb rhesymol iddynt. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn ystyried nad oedd yr esboniad a roddodd yr Ymddiriedolaeth i Mrs X yn egluro'n iawn pam yr ystyriwyd bod yr angen yng nghyswllt ei mam wedi cael ei categorio'n Oren 1 yn hytrach na Coch.

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth i roi esboniad mwy manwl i Miss X (os dymunai dderbyn un) o'r rheswm pam yr ystyriwyd y dylid blaenoriaethu'r alwad ar gyfer ei mam fel Oren 1 ac nid Coch.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#)
[Achos Rhif: 201807678 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Mr X am y ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd ag anaf drwy'r croen i'w wddf pan aeth gyntaf i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Llwynhelyg. Yn benodol, roedd ganddo bryderon fod y Bwrdd wedi methu ag archwilio'r briw'n iawn a chymryd sgan i chwilio am weddillion deunydd yn y briw cyn ei ryddhau.

Ar ôl i swyddfa'r Ombwdsmon gysylltu, aeth y Bwrdd Iechyd ati i adolygu'r cofnodion eto a chanfod y dylai'r meddyg A&E iau a fu'n trin Mr X fod wedi ymgynghori â chydweithiwr hŷn cyn ei ryddhau ac y dylai, mae'n debyg, fod wedi cael ei atgyfeirio at arbenigwr am farn a thriniaeth bellach.

Er mwyn setlo cwyn Mr X, cytunodd y Bwrdd Iechyd i benodi arbenigwr annibynnol i benderfynu a oedd tordyletswydd gofal wedi bod yn unol â Gweithdrefn Cwynion y GIG. Dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n adolygu a gweithredu argymhellion yr arbenigwr annibynnol, yn cynnig tâl i Mr X i adlewyrchu'r hyn a ddioddefodd, ac yn ymddiheuro a gwneud taliad pellach iddo am y diffygion yn ei ofal a'r ymchwiliad anfodhaol i'w gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty
Achos Rhif: 201803762 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr C am y gofal a'r driniaeth gyffredinol a dderbyniodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o fis Medi 2017 ymlaen. Yn benodol, am fethiant y Bwrdd Iechyd i'w atgyfeirio at ysbyty arbenigol yn dilyn sgan CT ym mis Medi 2017 oedd wedi arwain at oedi gyda'i ddiagnosis o liposarcoma.

Dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r achos, ac ar ôl derbyn cofnodion meddygol Mr C, nododd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu ddwywaith ag atgyfeirio Mr C at dim amlddisgyblaeth arbenigol mewn bwrdd iechyd cyfagos i ystyried ei ddiagnosis o liposarcoma. Pan gafodd atgyfeiriad ei wneud o'r diwedd ar ran Mr C, roedd oedi o tua wyth mis wedi bod.

Pan hysbyswyd y Bwrdd Iechyd o hyn, cytunodd i setlo cwyn Mr C drwy benodi arbenigwr ac ystyried, o dan broses gwynion Gweithio i Wella GIG Cymru, a oedd atebolrwydd cymwys yn bodoli yn achos Mr C, ac os felly a fyddai'n briodol cynnig mesurau iawn.

Yn unol â rheoliad 14 o Reoliadau'r GIG (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011, penderfynodd yr Ombwdsmon ddod â'i ymchwiliad i ben.

Meddygfa Margaret Street – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty
Achos Rhif: 201902068 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr A am ei Feddygfa ("y Feddygfa"). Dywedodd Mr A ei fod wedi bod yn gweld ei feddyg droeon am boen yn ei abdomen ond na chynigiwyd triniaeth nac ymchwiliad pellach iddo, gan ei adael mewn poen. Roedd Mr A hefyd yn anhapus â'r ffordd y siaradodd y meddyg dan sylw ("y Meddyg") â fo yn ystod un apwyntiad, gan ddweud ei fod yn teimlo ei fod eisiau cael ei le a'i fod wedi derbyn 'gwasanaeth ail ddsbarth'. Ysgrifennodd Mr A i'r Feddygfa i gwyno ar 14 Mai 2019 ond ni dderbyniodd unrhyw ymateb na chyswllt ar y mater. Roedd Mr A yn awyddus iawn i gael diagnosis o'i broblem iechyd.

Nododd yr Ombwdsmon nad oedd sicrhau diagnosis i Mr A yn rhywbeth y gallai ei sicrhau, ond roedd yn bryderus na dderbyniodd Mr A unrhyw gyswllt ar ôl iddo gwyno'n ffurfiol. Roedd yr oedi'n gyfystyr â chamweinyddu, ond teimlai'r Ombwdsmon ei bod yn bosib datrys y gŵyn a wnaed i'w swyddfa heb ymchwiliad ffurfiol. Cysylltodd â'r Feddygfa a gytunodd i gymryd y camau canlynol i ddatrys cwyn Mr A:

- a) O fewn 10 diwrnod, cynnig apwyntiad i Mr A gyda Meddyg Teulu arall yn y Feddygfa (o ystyried y pryderon a leisiwyd am y Meddyg) i drafod ac archwilio symptomau'r poen yn ei abdomen.
- b) Rhoi ymateb ysgrifenedig i gŵyn Mr A ac ymddiheuro am fethu ag ymateb i'w gŵyn yn brydlon (o fewn 14 diwrnod).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201901455 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X am y gofal a dderbyniodd gan Ymgynghorydd Locwm yn y Bwrdd Iechyd. Yn benodol, cwynodd nad oedd rhagnodi meddyginiaeth benodol yn seiliedig ar asesiad priodol o'r symptomau a gyflwynwyd.

Nododd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r gŵyn am yr Ymgynghorydd Locwm. Fodd bynnag, nid oedd ei ymateb yn rhoi sylw i'r gŵyn am safon y gofal clinigol.

Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Bwrdd Iechyd roi ymateb ysgrifenedig pellach i gŵyn Mr X am y pryderon yn ymwneud â safon y gofal clinigol, ac yn benodol:

- 1) A oedd angen y feddyginiaeth am resymau clinigol yn achos Mr X, a;
- 2) A oedd y penderfyniad i ragnodi'r feddyginiaeth yn seiliedig ar asesiad priodol o'r symptomau a gyflwynwyd gan Mr X ar y pryd.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i roi'r ymateb pellach hwn i Mr X o fewn tair wythnos.

Canolfan Feddygol Sgiwen – Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty Achos Rhif: 201902397 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Miss X fod Canolfan Feddygol Sgiwen ("y Feddygfa") wedi cam-ddiagnosio canser ei mam. Dywedodd fod hyn oherwydd nad oedd Meddyg Teulu llai profiadol wedi adnabod lymphiau canseraidd. Dywedodd Miss X nad oedd wedi derbyn ymateb ysgrifenedig ffurfiol i'w chŵyn.

Cytunodd y Feddygfa i wneud y canlynol er mwyn setlo cwyn Miss X.

Erbyn 21 Awst, cytunodd y Feddygfa i:

- a) Rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol i bryderon Miss X ac ymddiheuro wrthi am yr oedi cyn ymateb.
- b) Ailadrodd ei chynnig i gael cyfarfod i drafod pryderon Miss X wyneb yn wyneb â rheolwr y Feddygfa a'r staff clinigol perthnasol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Apwyntiadau/derbyniadau/gweithdrefnau rhyddhau a throsglwyddo Achos Rhif: 201902372 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X fod y Bwrdd Iechyd wedi gwrthod atgyfeiriad ar gyfer hydrotherapi. Dywedodd fod y driniaeth wedi cael ei hargymell ond dywedwyd wrtho nad oedd yn briodol, er nad oedd asesiad wedi cael ei wneud.

Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd asesiad o anghenion Mr X wedi cael ei gwblhau'n llawn ac nad oedd y penderfyniad i beidio â rhoi hydrotherapi iddo wedi'i wneud yn briodol.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i wneud asesiad prydlon ar gyfer Mr X yn unol â'r canllawiau perthnasol. Cytunodd i hysbysu Mr X o ganlyniad yr asesiad o fewn deg diwrnod gwaith i'w apwyntiad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201901864 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr A fod y Bwrdd Iechyd wedi cam-ddiagnosio cyflwr ei benglin a oedd ganddo ers Ionawr 2018. Credai fod y cam-ddiagnosis wedi golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi cyngor priodol iddo ar orffwys a thriniaeth ar gyfer y benglin dan sylw. Roedd hefyd yn anhapus ag ymateb y Bwrdd Iechyd na wnaeth ystyried a oedd y cam-ddiagnosis o gyflwr ei benglin wedi achosi i'w benglin ddirywio a chyfrannu at ddechrau cael arthritis yng nghymal ei benglin oherwydd ei fod wedi parhau i'w ddefnyddio fel arfer.

Casglodd yr Ombwdsmon fod diffyg ymateb wedi bod gan y Bwrdd Iechyd i'r mater penodol a godwyd gan yr achwynydd ynghylch bod cyflwr ei benglin yn dirywio. Roedd hefyd wedi methu â chydlynu ymateb i'w gŵyn gan ei Feddygfa (oedd yn ei reoli) a'r Ysbyty.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Bwrdd Iechyd a gytunodd i:

- 1) Ysgrifennu at Mr A yn ymddiheuro am beidio ag ymateb i ddwy ran ei gŵyn wreiddiol fel y corff cyhoeddus oedd yn gyfrifol am ei ofal sylfaenol a'i ofal eilaidd.
- 2) Rhoi ymateb ynghylch a allai'r cam-ddiagnosis o'r broblem gyda'i benglin fod wedi achosi'r dirywiad pellach a dechrau'r arthritis.
- 3) Cynnig talu £100 i gydnabod ei amser a'i drafferth yn gorfod delio â dau gorff gwahanol yn ddiangen ac i gydnabod yr oedi cyn i'r Bwrdd Iechyd ymateb ar ôl methu ag adnabod y materion gofal eilaidd oedd wedi eu codi yn y gŵyn.

Hyn i'w gwblhau o fewn 30 diwrnod gwaith i ddyddiad llythyr fy mhenderfyniad.

Mae'r Ombwdsmon yn fodlon bod hyn yn cynnig datrysiad cynnar a gwirfoddol i gŵyn Mr A.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201902773 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Miss X fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â darparu cofnodion, a recordiad o gyfarfod cwyn a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn:

- a) Anfon llythyr yn ymddiheuro'n ystyrlon ac yn egluro pam fod oedi wedi bod gyda rhoi recordiad a chofnodion y cyfarfod i Miss X – o fewn y 5 diwrnod nesaf.
- b) Sicrhau bod copi o recordiad digidol y cyfarfod ar 18 Mawrth 2019, a chrynodeb o'r drafodaeth, yn cael eu hanfon at Miss X – o fewn y pythefnos nesaf.
- c) Talu iawndal ariannol o £100 am ei hamser a'i thrafferth yn gwneud y gŵyn ac i gydnabod y ffordd wael y deliwyd â'r gŵyn.
- d) Sicrhau bod y Tim Cwynion yn adolygu'r elfen wasanaeth hon – fel na fydd hyn yn digwydd eto.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201902368 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr a Mrs X am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd Mrs X gan y Bwrdd Iechyd. Roedd Mr a Mrs X wedi cwyno i'r Bwrdd Iechyd ond heb gael ymateb eto.

Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus fod Mr a Mrs X yn amlwg yn teimlo'n siomedig gyda'r Bwrdd Iechyd a theimlai felly y byddai'n briodol i Mr a Mrs X gael eu sicrhau bod mesurau'n cael eu cymryd i leihau'r posibilrwydd y byddai hyn yn digwydd eto. Cytunodd y Bwrdd Iechyd fod hyn yn annerbyniol a chytunodd i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn:

- a) Anfon llythyr yn ymddiheuro ynghyd ag esboniad am yr oedi gydag ymateb – o fewn y 5 diwrnod nesaf.
- b) Sicrhau bod ymateb yn cael ei roi i'r materion na chawsant sylw yn llythyr Mr a Mrs X dyddiedig 13 Mawrth – o fewn y pythefnos nesaf.
- c) Sicrhau bod y Tim Cwynion yn adolygu'r elfen wasanaeth hon – fel na fydd hyn yn digwydd eto.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201902470 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mrs X fod yn rhaid i'w gŵr, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Prifysgol Cymru, yn awr yn gorfod hunan-gathetereiddio am weddill ei fywyd. Credai Mrs X fod hyn o ganlyniad i ofal anfodhaol gyda gosod y catheter cyn llawdriniaeth ei gŵr.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd gopi o gŵyn Mrs X ond methodd ag ymateb i'r pryderon a chytunodd i wneud y canlynol er mwyn setlo ei chŵyn.

O fewn **30 diwrnod gwaith**:

- a) Anfon llythyr ysgrifenedig yn ymddiheuro wrth yr achwynydd am yr amryfusedd a'r oedi'n ymchwilio i'r gŵyn.
- b) Ymchwilio i'r gŵyn a rhoi ymateb prydlon 'Gweithio i Wella' i'r achwynydd.
- c) Ymchwilio i'r rhesymau am yr amryfusedd gyda'r gŵyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201902384 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms E am adroddiad gan arbenigwr annibynnol, ar gais y Bwrdd Iechyd, ynghylch sut yr oedd wedi rheoli a rhagnodi ei meddyginiaeth dros nifer o flynyddoedd. Dywedodd Ms E ei bod yn anhapus â faint o amser a gymrodd iddi dderbyn yr adroddiad, ei fod yn anghywir a'i bod wedi ceisio cysylltu â'r Bwrdd Iechyd yn ofer i drafod ei phryderon. Dywedodd Ms E hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi cofnodion iddi sawl cais ffurfiol amdanynt a'i fod wedi cyflenwi cofnodion i berson arall heb ei chaniatâd.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi gofyn am adroddiad annibynnol er mwyn rhoi ymateb llawn i gŵyn blaenorol gan Ms E am sut yr oedd wedi rheoli a rhagnodi ei meddyginiaeth, a'i bod wedi gorfod aros am fisoedd lawer cyn derbyn y canfyddiadau a'r canlyniad terfynol. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod wedi cynnig trafod yr adroddiad annibynnol neu unrhyw bryderon gyda Ms E os oedd yn anfodlon a chytunodd, oherwydd na lwyddodd Ms E i gysylltu â'r Bwrdd, y byddai'n trefnu cyfarfod i drafod ei phryderon am yr adroddiad a'r ffordd y deliodd â darparu cofnodion.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201902406 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mrs X am y gofal a roddwyd i'w diweddar fab, a bod ei feddyginiaeth wedi blocio prif wythiennau ei galon gan arwain at ei farwolaeth ddisymwth. Roedd Mrs X yn anghytuno ag ymateb y Bwrdd Iechyd a ddywedodd nad oedd rheswm taer dros ei dderbyn.

Asesodd yr Ombwdsmon y gŵyn gan nodi fod Mrs X wedi codi llawer o bryderon newydd ac nad oedd Mrs X yn ystyried bod ei chwynion i gyd wedi cael eu hateb. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai'r gŵyn gael ei datrys yn gynnar.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd, o fewn mis, i roi ymateb i Mrs X ar nifer o'r pryderon a thrafod ei chŵyn gyda hi. Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i gyfarfod â Mrs X i drafod ei chŵyn yn dilyn ei ymateb.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Triniaeth glinigol yn yr ysbyty](#) [Achos Rhif: 201902237 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Mr A ei fod wedi derbyn llythyr ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nid oedd y llythyr yn ateb y materion yn ei gŵyn yn llawn. Yn wreiddiol roedd wedi cwyno am y diffyg gofal a thriniaeth a dderbyniodd pan aeth i Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ei ysbyty lleol ym mis Chwefror 2019, ar ôl cael anaf i'w drwyn yn dilyn brathiad gan gi.

Roedd y Bwrdd wedi ymateb i'w gŵyn gychwynol drwy lythyr ond ni dderbyniodd unrhyw ymateb i'r e-bost a anfonodd wedyn yn codi materion y teimlai na chawsant ateb llawn gan y Bwrdd. Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Bwrdd a hysbysodd ei fod wedi adolygu'r materion a godwyd a'i fod yn y broses o baratoi llythyr ymateb iddo.

Cytunodd i:

- 1) Anfon llythyr ysgrifenedig at Mr A yn ymateb i'r materion pellach a godwyd ganddo.

Hyn i'w gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201902653 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mrs X fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ("y Bwrdd Iechyd") wedi methu â darparu gofal a thriniaeth foddhaol ar ei chyfer. Cwynodd Mrs X hefyd, yn dilyn cyfarfod datrys lleol, fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi copi o recordiad sain neu gofnodion y cyfarfod hwnnw iddi. Cwynodd Mrs X hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi ei sicrhau, yn y cyfarfod datrys lleol, y byddai'n rhoi tystiolaeth iddi fod polisiau wedi cael eu hadolygu ond yna methodd â rhoi'r dystiolaeth hon iddi.

O ran cwyn Mrs A am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd, casglodd yr Ombwdsmon fod yr amser i gwyno i'r Ombwdsmon wedi pasio bellach.

Fodd bynnag casglodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi cofnodion, copi o'r recordiad sain, a thystiolaeth fod polisiau wedi cael eu hadolygu, i Mrs X.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i:

- a) Anfon llythyr ysgrifenedig at Mrs X yn ymddiheuro ac esbonio'r camweinyddu a ddigwyddodd yn dilyn y cyfarfod datrys lleol.
- b) Rhoi cyfle i Mrs X gael cyfarfod pellach â'r Bwrdd Iechyd er mwyn trafod ei chwestiynau gwreiddiol ac unrhyw gwestiynau ychwanegol oedd wedi codi, a chofnodion y cyfarfod hwnnw i'w rhoi'n brydlon iddi wedyn.
- c) Rhoi tystiolaeth i Mrs X fod polisiau wedi cael eu hadolygu er mwyn gwella'r gofal i gleifion eraill yn y dyfodol.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon fod y mesurau hyn yn ateb y gŵyn a phenderfynodd beidio ag ymchwilio.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty Achos Rhif: 201903242 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms X gyntaf i'r Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2016. Yn ei ymateb iddi ym mis Mawrth 2016, roedd y Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod tor-dyletswydd gofal wedi digwydd ac y byddai'n gofyn i arbenigwr mewnol adolygu ei gofal ymhellach a rhoi barn broffesiynol ynghylch a oedd atebolrwydd cymwys yn bodoli neu beidio. Methodd y Bwrdd Iechyd â chyfarwyddo arbenigwr mewnol i adolygu ei chŵyn.

Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd, oherwydd newidiadau staff ac i'w system, fod y mater wedi'i esgeuluso ac na ofynnwyd am adolygiad mewnol iddo. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod hyn yn annerbyniol a chytunodd i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn:

O fewn **30 diwrnod gwaith**:

- a) Anfon llythyr yn ymddiheuro wrth Ms X am yr oedi annerbyniol.
- b) Talu £750.00 iddi am yr oedi annerbyniol.

O fewn **16 wythnos** i dderbyn yr holl gofnodion meddygol angenrheidiol:

- a) Gofyn i arbenigwr annibynnol allanol adolygu gofal Ms X.

Gweinyddu Budd-daliadau

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Sir Ceredigion – Budd-dal Tai

Achos Rhif: 201901746 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs X fod y Cyngor wedi methu â thynnu manylion ei gŵr oddi ar y system gofrestru'n dilyn ei farwolaeth. Dywedodd fod y Cyngor wedi parhau i ofyn am wybodaeth am ei hawliadau budd-dal. Dywedodd ei fod wedi cymryd rhy hir i ddelio â'i chŵyn ac nad oedd y taliad a gynigiwyd i adlewyrchu hyn yn ddigon. Hefyd, oherwydd yr amser a gymrodd i brosesu ei hawliadau, na allai hawlio taliad angladd.

Casglodd yr asesiad fod peth o'r wybodaeth a ofynnodd y Cyngor amdani'n ddiangen ac y dylai fod wedi gofyn amdani'n gynt. Fodd bynnag, fel arall roedd y Cyngor wedi prosesu hawliadau budd-dal Mrs X yn briodol a heb achosi unrhyw niwed iddi. Cynigiwyd taliad ariannol yn barod i adlewyrchu'r oedi'n delio â'r gŵyn. Gallai Mrs X fod wedi darparu'r wybodaeth y gofynnodd y Cyngor amdani ar gyfer y taliad angladd yn dilyn cwblhau ei hawliad.

I gywiro pethau, cytunodd y Cyngor i gynnig taliad o £50 i Mrs X am y ffordd y deliodd â'i hawliad. Cytunodd hefyd i ailadrodd ei gynnig o dalu £75 am y ffordd y deliodd â'i chŵyn.

Adloniant, Hamdden a Chyfleusterau Cymunedol

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Sir Powys – Mynwentydd/Beddi/Cerrig Beddi

Achos Rhif: 201901438 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X am y ffordd y deliodd y Cyngor â'i gais i wasgaru llwch ar lain beddi teuluol.

Casglodd yr Ombwdsmon fod yr hyn a wnaeth y Cyngor, at ei gilydd, yn rhesymol. Fodd bynnag, roedd cynnwys un o'i llythyrau cychwynnol at Mr X yn anghywir o ran y gofynion cyfreithiol am ganiatâd i wasgaru llwch.

Felly cytunodd y Cyngor i anfon llythyr ysgrifenedig, yn ymddiheuro'n ffurfiol am gynnwys camarweiniol y llythyr hwn, at Mr X o fewn tair wythnos i benderfyniad yr Ombwdsmon.

Ymdrin â Chwynion

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Iechyd

Achos Rhif: 201901971 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod y Bwrdd Iechyd wedi methu ag ymateb i'w gŵyn am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei ddiweddar dad.

Roedd y Bwrdd Iechyd wedi anfon llythyr at Mr X yn fuan ar ôl ei gŵyn i'r Ombwdsmon ac wedi ymddiheuro am yr oedi'n delio â'i gŵyn.

Yn ystod ei ymholiadau, sefydlodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni Adolygiad Digwyddiad Difrifol ("SIR") o rai elfennau o ofal tad Mr X. Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i Mr X yn dilyn ei gŵyn. Yn dilyn ymholiadau'r Ombwdsmon, cytunodd y Bwrdd Iechyd i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Mr X erbyn 31 Gorffennaf 2019.

- a) Cyhoeddi'r adroddiad SIR fydd yn cynnwys ei ymateb PTR.

Cymdeithas Tai Siarter (rhan o'r Grŵp Pobl) - Tai

Achos Rhif: 201901800 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms X fod y Gymdeithas wedi methu ag ymateb i'w chŵyn a'i gohebiaeth ynghylch gwneud gwaith trwsio.

Yn ystod ei ymholiadau, sefydlodd yr Ombwdsmon nad oedd y Gymdeithas wedi trin gohebiaeth Ms X fel cwynion. Yn dilyn ymholiadau'r Ombwdsmon, cytunodd y Gymdeithas i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Ms X erbyn 12 Awst 2019.

- a) Anfon llythyr at Ms X yn ymddiheuro am fethu â delio â'i gohebiaeth fel cwynion ac yn egluro'r rhesymau pam y digwyddodd hyn.
- b) Rhoi sicrwydd i Ms X y bydd prosesau'n cael eu hadolygu fel nad yw hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.
- c) Rhoi ymateb Cam 2 i Ms X.
- d) Talu £125 i Ms X am ei hamser a'i thrafferth yn cwyno i'r Ombwdsmon.

Cyngor Dinas Casnewydd – Ffyrdd a Thrafnidiaeth

Achos Rhif: 201901797 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms X fod y Cyngor wedi methu â delio â phroblem coeden yn hongian drosodd, oedd wedi'i reportio ganddi gyntaf ar 23 Hydref 2018. Cwynodd Ms X hefyd fod y Cyngor wedi methu ag ymateb i'w chŵyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu ag ymateb i Ms X yn dilyn ei chŵyn. Cytunodd y Cyngor felly i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Ms X erbyn 30 Gorffennaf 2019.

- a) Ysgrifennu at Ms X yn ymddiheuro am fethu ag ymateb i'w chŵyn ac yn egluro'r rhesymau am y methiant mewn cyfathrebu.
- b) Ail-agor y gŵyn dyddiedig 25 Chwefror 2019 a rhoi ymateb cam dau i'r gŵyn.
- c) Sicrhau Ms X ynghylch sut y bydd yn delio â'i chŵyn ac egluro sut y bydd y broses newydd yn osgoi digwyddiad o'r fath yn y dyfodol.
- d) Cynnal cyswllt â'r adran briodol er mwyn canfod ateb i brif bryder Ms X, sef y coed yn hongian drosodd.
- e) Sicrhau bod yr ardal dan sylw'n cael ei harchwilio a gweithredu'n cael ei gytuno.
- f) Hysbysu Ms X o ganlyniad yr archwiliad.

Cyngor Sir Powys – Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Achos Rhif: 201901684 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mrs X fod y Cyngor wedi newid ei darparwr gofal heb roi rhybudd, heb drafod â hi a heb ei chaniatâd. Cwynodd Mrs X hefyd fod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw nac ymateb yn foddhaol i unrhyw gyfathrebiad ganddi.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor oherwydd ei bryder bod gan y Cyngor ddyletswydd, o dan y rheoliadau perthnasol, i symud cwynion at Gam 2 ac nad oedd wedi rhoi gwybod i Mrs X o'i hawl i wneud hyn yn ei ymateb Cam 1. Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn **erbyn 1 Awst 2019**:

- a) Ymddiheuro wrth Mrs X am fethu â thynnu sylw, yn ei ymateb Cam 1, at ei hawl i ofyn am ymchwiliad annibynnol Cam 2.
- b) Ymchwilio i gŵyn Mrs X i'r Ombwdsmon o dan Gam 2 o'r Weithdrefn Gwyno.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Tai Achos Rhif: 201901678 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod y Cyngor wedi methu ag adnabod bod gan yr eiddo drws nesaf iddo, a fu'n wag ers dros 15 mlynedd, ardd wedi tyfu'n wyllt sydd wedi achosi niwed i'w eiddo a'i ardd. Cwynodd Mr X hefyd fod y Cyngor wedi methu â chymryd unrhyw gamau i gywiro'r mater.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor oherwydd ei bryder bod y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod i Mr X na fyddai ei e-bost yn cwyno'n cael ei drin fel cwyn ffurfiol. Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn o fewn pedair wythnos i benderfyniad yr Ombwdsmon.

- a) Ymddiheuro'n ysgrifenedig wrth Mr X am fethu ei hysbysu na fyddai ei e-bost yn cael ei drin fel cwyn ffurfiol.
- b) Rhoi esboniad i Mr X ynghylch pam na chafodd ei e-bost ei drin fel cwyn ffurfiol.
- c) Rhoi esboniad ysgrifenedig i Mr X yn nodi canfyddiadau'r ymchwiliad.

Cyngor Caerdydd – Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Achos Rhif: 201901543 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Ms X yn dilyn ei chŵyn i'r Cyngor ar 26 Ebrill 2019, ac ar wahân i dderbyn ymateb awtomatig, nad oedd y Cyngor wedi rhoi unrhyw ymateb pellach iddi.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â chydabod ac ymateb yn ffurfiol i Ms X yn dilyn ei chŵyn. Cytunodd y Cyngor felly i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn o fewn 20 diwrnod gwaith i benderfyniad yr Ombwdsmon.

- a) Ysgrifennu at Ms X yn ymddiheuro am fethu â chydabod ac ymateb i'w chŵyn gan egluro'r rhesymau am yr amryfusedd hwn.
- b) Sicrhau Ms X y bydd y broses yn cael ei hadolygu i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.
- c) Ymateb i'w chŵyn.

Cwmni Tai Cymunedol Bron Afon - Tai Achos Rhif: 201901478 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cyflwynodd Miss a Mr X nifer o gwynion i'r Gymdeithas Dai ond ni chawsant unrhyw ymateb.

Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus am yr oedi ac nad oedd Miss a Mr X wedi cael ymateb. Cytunodd y Gymdeithas Dai nad oedd hyn yn wasanaeth derbyniol a chytunodd i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn:

- a) Ymddiheuro am yr oedi.
- b) Anfon llythyr ffurfiol yn ymateb i'r gŵyn o fewn 10 diwrnod gwaith i'r llythyr penderfyniad.

Cyngor Sir Ynys Môn – Cyllid a Threthiant Achos Rhif: 201804977 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Miss A am y ffordd oedd y Cyngor wedi gweinyddu ei threth cyngor. Dywedodd fod y Cyngor wedi methu â chasglu'r swm cywir drwy ddebyd uniongyrchol gan arwain at ôl-ddyledion a achosodd galedi ariannol iddi. Cwynodd Miss A hefyd fod y Cyngor wedi rhoi gwybodaeth anghyson iddi am falans ei hól-ddyledion hanesyddol, ac nad oedd wedi ei ffonio'n ôl i ateb ei ymholiadau am ei chyfrif.

Ar ôl derbyn y gŵyn, aeth y Cyngor ati i adolygu cyfrif Miss A yn fanwl. Cafodd camgymeriad cyfrifo meddalwedd cyfrifiadurol ei adnabod a chymau eu cymryd ar unwaith i sicrhau na fyddai Miss A yn dioddef colled ariannol. Casglodd yr Ombwdsmon, er bod Miss A wedi derbyn gwybodaeth anghyson gan ei chyflogwr am falans ei hól-ddyledion, fod y balans a gyflwynodd y Cyngor iddi'n gywir erbyn hyn. Roedd yr anhawster a gafodd Miss A gyda chael gwybodaeth am ei chyfrif dros y ffôn yn ymwneud â threfniadau 'un pwynt cyswllt' nad oeddent yn afresymol. Fodd bynnag, nodwyd fod staff wedi methu â chyfeirio Miss A at y trefniadau 'un pwynt cyswllt' hynny pan ffoniodd.

Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro wrth Miss A a thalu iawndal o £50 i gydnabod yr anawsterau a gafodd. Cytunodd y Cyngor hefyd i adrodd y broblem meddalwedd i'w gyflenwr er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater. Atgoffodd yr Ombwdsmon y Cyngor na ddylai ei drefniadau cyswllt fod mor gyfyngus fel bod angen i gwsmeriaid gyda chyfrifon aros yn afresymol o hir am wybodaeth.

Cymdeithas Tai Hafod - Tai

Achos Rhif: 201902562 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Miss X er ei bod wedi gwneud wyth cwyn i'r Gymdeithas, bod y Gymdeithas wedi methu ag ôl-ddilyn ei chwynion am lwydni yn ei heiddo.

Yn ystod ei ymholiadau, sefydlodd yr Ombwdsmon nad oedd y Gymdeithas wedi trin holl ohebiaeth Miss X fel cwynion. Yn dilyn ymholiadau'r Ombwdsmon, cytunodd y Gymdeithas i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Miss X erbyn 17 Medi 2019.

- a) Anfon llythyr at Miss X yn ymddiheuro am fethu â delio â'i holl ohebiaeth fel cwynion ac yn egluro'r rhesymau pam.
- b) Rhoi sicrwydd i Miss X y bydd y staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant gloywi ar ddelio â chwynion.
- c) Rhoi ymateb Cam 2 i Miss X.

Cyngor Sir Benfro – Tai

Achos Rhif: 201902478 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X fod Cyngor Sir Benfro ("y Cyngor") wedi methu ag ymateb i'w gŵyn. Roedd y gŵyn wedi'i hanfon at y Cyngor gan yr Ombwdsmon yn Ebrill 2019.

Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo cŵyn Mr X:

Erbyn 19 Awst 2019:

- a) Rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol i Mr X i'w bryderon gwreiddiol ac yn ymddiheuro wrtho am yr oedi cyn ymateb.
- b) Cynnig tâl gwasanaeth o £100 i Mr X am yr oedi gydag ymateb.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Iechyd

Achos Rhif: 201901721 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mrs X am gynnwys adroddiad ymchwiliad gan gorff allanol, oedd wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd. Roedd Mrs X yn bryderus bod yr adroddiad yn cynnwys gwallau cywirdeb ac nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi glynu wrth weithdrefn gwynion GIG Cymru. Daeth Mrs X hefyd yn ymwybodol o wybodaeth ychwanegol oedd yn berthnasol i'r adroddiad ond oedd wedi'i adael allan o'r adroddiad terfynol. O ganlyniad, cyfarfu Mrs X ag uwch-swyddogion yn y Bwrdd Iechyd wnaeth ei sicrhau y byddai ei chwestiynau oedd heb gael sylw'n cael eu rhoi i awduron yr adroddiad ac y byddai'n derbyn ymateb pellach. Oherwydd nad oedd wedi derbyn ymateb, cynnodd i'r Ombwdsmon.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Bwrdd Iechyd a ddywedodd fod cwestiynau Mrs X wedi cael eu hanfon at awduron Adroddiad yr Ymchwiliad. Roedd y Bwrdd Iechyd yn disgwyl i'r awduron roi eu hymatebion i'r Bwrdd Iechyd erbyn diwedd Awst. Roedd yr Ombwdsmon yn parhau i fod yn bryderus am yr amser yr oedd yn rhaid i Mrs X aros am ei hymatebion pellach. Fodd bynnag roedd o'r farn, o gofio bod y Bwrdd Iechyd yn aros am ymatebion o'r tu allan i'r Bwrdd Iechyd, y byddai'n rhesymol i'r Bwrdd Iechyd anfon ymatebion yr awduron at Mrs X erbyn 9 Medi 2019.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i anfon yr ymatebion at Mrs X yn unol â'r hyn a gynigiwyd uchod gan yr Ombwdsmon.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Iechyd](#)
[Achos Rhif: 201902766 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Ms X am y gofal a dderbyniodd ei diweddar fam yn yr ysbyty, yn ymwneud â symud o gwmpas yn amhriodol ar ôl cael codwm, pryderon am therapi ocsigen a digwyddiad lle'r oedd wedi dioddef toriad i'w choes chwith.

Esboniodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn ymchwilio i'r mater o dan y broses Adolygu Digwyddiad Difrifol ("SRI"), drwy wneud Dadansoddiad o Wraidd y Broblem ("RCA"), ond nad oedd eto wedi ystyried cwyn Ms X o dan broses Gweithio i Wella ("PTR") y GIG. Ar ôl trafodaethau â'r Ombwdsmon, cytunodd y Bwrdd Iechyd i gwblhau'r RCA erbyn diwedd mis Hydref ac anfon ymateb ffurfiol i gŵyn Ms X o fewn 20 diwrnod gwaith yn dilyn hynny. Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i adolygu ei weithdrefnau, a'i holl achosion RCA oedd heb eu cwblhau eto, i sicrhau y byddai gan yr achwynydd fynediad di-oed at y broses PTR.

Teimlai'r Ombwdsmon fod y camau hyn yn setlo'r mater yn rhesymol.

[Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Amrywiol Eraill](#)
[Achos Rhif: 201902774 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019](#)

Cwynodd Miss X er ei bod wedi gwneud cwyn i'r Cyngor yn 2018, ei fod wedi methu ag ymateb i'w chŵyn. Cwynodd Miss X hefyd ar ran Mr a Mrs A oedd wedi gwneud cwyn i'r Cyngor a heb dderbyn ymateb.

Yn ystod ei ymholiadau, sefydlodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â thrin gohebiaeth Mr a Mrs A fel cwyn. Yn dilyn ymholiadau'r Ombwdsmon, cytunodd y Cyngor i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Miss X erbyn 7 Hydref.

- a) Ymddiheuro wrth Mr a Mrs A am fethu â thrin eu gohebiaeth fel cwyn.
- b) Anfon ymateb Cam 2 i gŵyn Mr a Mrs A.

Cafcass Cymru – Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Achos Rhif: 201902252 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr X fod Cafcass Cymru wedi methu â delio â'i gŵyn yn unol â'i weithdrefn gwyno. Er bod Mr X yn cydnabod bod elfennau o'i gŵyn yn ymwneud â materion llys, roedd eraill nad oeddent yn berthnasol i'r llys. Dywedodd Mr X nad oedd Cafcass wedi cysylltu â fo i sefydlu natur ei gŵyn.

Derbyniodd Cafcass nad oedd wedi cysylltu â Mr X am ei gŵyn. Dywedodd mai'r rheswm am hyn oedd ei fod yn credu bod y gŵyn yn ymwneud â materion llys ac nad oedd ei weithdrefn gwyno'n berthnasol felly.

Er mwyn datrys y gŵyn, ar ôl derbyn cwyn lawn gan Mr X, cytunodd Cafcass i'w ystyried o dan ei weithdrefn gwyno gan gynnwys a fyddai cynnal ymchwiliad llawn i'r gŵyn yn briodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Iechyd Achos Rhif: 201901244 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Roedd Miss X wedi codi pryder gyda'r Bwrdd Iechyd am ei phrofiad ag aelod o'r Tim Triniaeth yn y Cartref, yn ystod ymweliad cartref ym mis Mawrth 2018. Credai Miss X fod y Bwrdd Iechyd wedi cofnodi ei phryder fel Atgyfeiriad Diogelu Oedolion (ASR) ac wedi'i basio ymlaen i'r Awdurdod Lleol am sylw. Cwynodd Miss X nad oedd wedi derbyn canlyniad yr ASR.

Ar ôl trafod gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol, casglodd yr Ombwdsmon fod yr ASR wedi cael ei gollu. Fodd bynnag, ni allai sefydlu sut y digwyddodd hyn na pha gorff oedd ar fai. Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod cadarnhad Miss X na chafodd gyswllt pellach â'r aelod o staff dan sylw. Casglodd yr Ombwdsmon (a derbyniodd Miss X) nad oedd mwyach yn ymarferol i'r ASR gael ei ystyried oherwydd yr amser oedd wedi mynd heibio.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i wneud y canlynol er mwyn setlo cwyn Miss X:

- 1) Rhoi ymateb ysgrifenedig i Miss X i'r pryderon a gododd yn ei llythyr at y Bwrdd Iechyd dyddiedig 9 Medi 2018.
- 2) Talu iawndal o £250 i gydnabod y trallod a achoswyd i Miss X gan yr oedi'n delio â'i phryder.
- 3) Cwblhau'r mesurau uchod o fewn 30 diwrnod gwaith i ddyddiad cyhoeddi penderfyniad yr Ombwdsmon.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Iechyd Achos Rhif: 201903165 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr X ei fod wedi cael gwybod y byddai adroddiad gan glinigydd annibynnol i'r gofal a dderbyniodd, oedd wedi'i gytuno'n dilyn cwyn a wnaeth i'r Ombwdsmon, yn cael ei anfon ato o fewn 10 wythnos i'r 22 Ionawr 2019. Fodd bynnag, cwynodd Mr X ei fod yn dal i aros am adroddiad y clinigydd annibynnol ym mis Medi 2019.

Casglodd yr Ombwdsmon, oherwydd nifer o wahanol amgylchiadau oedd yn ymddangos i fod allan o reolaeth y Bwrdd Iechyd, fel amgylchiadau personol y clinigydd annibynnol, nad oedd yr adroddiad wedi cael ei ddarparu. Fodd bynnag, pan oedd yr Ombwdsmon yn gwneud ei ymholiadau, roedd y Bwrdd Iechyd yn disgwyl derbyn adroddiad y Clinigydd Annibynnol yn fuan.

Felly cytunodd yr Ombwdsmon y byddai'r Bwrdd Iechyd, erbyn 6 Hydref 2019, yn:

- a) Rhoi adroddiad llawn y Clinigydd Annibynnol i Mr X.
- b) Ymddiheuro wrth Mr X gan egluro'n benodol pam y cafwyd oedi gyda darparu'r adroddiad.

Addysg

Cadarnhawyd

Cyngor Castell Nedd Port Talbot – Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
Achos Rhif: 201802109 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms B fod Cyngor Castell Nedd Port Talbot, fel yr Awdurdod Addysg Lleol oedd yn gyfrifol am ddarparu addysg i'w mab ("C"), wedi methu ag asesu ei anghenion addysgol yn brydlon a heb ddellio â'i chwynion yn iawn ac yn unol â'i bolisi cwynion. Ni allai'r Ombwdsmon ystyried unrhyw gwynion am weithredoedd yr ysgolion dan sylw.

Casglodd yr ymchwiliad er bod C yn derbyn cymorth ychwanegol gan y Cyngor yn yr ysgolion yr oedd yn mynd iddynt, lle'r ysgolion fel arfer oedd penderfynu a oedd ei gynnydd yn foddhaol ac a ddylai asesiad statudol fod wedi cael ei ystyried. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gofynnwyd i'r Cyngor benderfynu a fyddai asesiad statudol yn briodol neu y byddai disgwyl yn rhesymol i'r Cyngor fod wedi ystyried bod angen un o ystyried y sicrwydd a gafwyd gan yr ysgolion ar gynnydd C. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chadarnhau y rhan yma o gŵyn Ms B.

Cwynodd Ms C i'r ysgolion dan sylw a phenderfynodd y Cyngor gyflawni ymchwiliad ar ran yr ysgolion. Cyflawnodd y Cyngor yr ymchwiliad yn brydlon ond yr ysgol oedd yn dal i fod yn gyfrifol am y broses a chafwyd oedi cyn i bryderon Ms B gael sylw. Nid oedd y Cyngor wedi dweud yn glir wrth Ms B ar y dechrau bod rôl y Cyngor yn delio â'r gŵyn wedi'i chyfyngu. Achosodd hyn ddryswch a thrallod i Ms B oherwydd credai mai'r Cyngor oedd yn delio â'i chŵyn ond mewn gwirionedd nid y Cyngor oedd y corff oedd yn gyfrifol. Penderfynodd yr Ombwdsmon gadarnhau yn rhannol yr elfen o gŵyn Ms B yn ymwneud â delio â'i chŵyn a chytunodd y Cyngor ag argymhelliad yr Ombwdsmon i ymddiheuro am beidio ag egluro cyfyngiadau ei rôl.

Ni Chadarnhawyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cludiant Ysgol
Achos Rhif: 201804852 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Roedd Mr A yn ofalwr maeth gydag asiantaeth gofal maeth breifat ("yr Asiantaeth"). Drwy leoliad wedi'i drefnu gan yr Asiantaeth, roedd yn gofalu am blentyn G ar ran y Cyngor. Cwynodd Mr A fod y Cyngor wedi cefnu ar gytundeb i ddarparu cludiant ysgol cyn 8.00am fel y gallai plentyn G gyrraedd yr ysgol ar amser. Dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi methu â rhoi cymorth priodol iddo i'w helpu i gwrdd ag anghenion addysgol plentyn G. Er bod y Cyngor wedi cynnig trefniadau eraill fel y gallai plentyn G gyrraedd yr ysgol ar amser, nid oedd Mr A yn cytuno gyda'r trefniadau hyn.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi cwrdd â'i ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i blentyn G. Ar ôl gwneud ymholiadau helaeth gyda'r Cyngor a'r Asiantaeth, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y Cyngor wedi cytuno i ddarparu cludiant ysgol i blentyn G cyn 8.00am. Ni allai'r Ombwdsmon ddod i gasgliad ynghylch pa mor briodol oedd y trefniadau eraill a gynigiwyd gan y Cyngor oherwydd nid oeddent eto wedi eu cadarnhau'n derfynol. Fodd bynnag, o dan delerau contract y Cyngor gyda'r Asiantaeth, lle'r Asiantaeth oedd hwyluso presenoldeb plentyn G yn ei lleoliad addysgol. Felly, mater i'r Asiantaeth ac nid i'r Cyngor oedd cynorthwyo Mr A ymhellach fel y gallai plentyn G gyrraedd yr ysgol ar amser. Ni chadarnhawyd cwynion Mr X.

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Panel Apeliadau Derbyn – Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf – Gweithdrefn ac apeliadau derbyn

Achos Rhif: 201901389 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr H fod y Panel Apeliadau wedi methu â gwrthdroi penderfyniad na ddylid cynnig lle yn yr Ysgol i'w fab. Dywedodd ei fod wedi cael ei gamarwain ar broses dderbyn yr ysgol, gan gynnwys meini prawf gorniferoedd yr ysgol a'i fod wedi cwestiynu a oedd y meini prawf hynny'n cael eu cymhwyso'n gywir.

Cytunodd yr Ombwdsmon â'r Panel Apeliadau fod trefniadau derbyn yr Ysgol, fel y cawsant eu cyhoeddi, yn briodol a chyfreithlon a'u bod wedi cael eu cymhwyso'n gywir a diduedd i gais Mr H. Fodd bynnag, casglodd fod llythyr penderfyniad y Panel Apeliadau'n rhy gyffredinol ac nad oedd yn egluro'n iawn sut yr oedd wedi cydbwysio lefel y niwed i'r ysgol, pe bai mab Mr H yn cael ei dderbyn, yn erbyn pwysau apêl Mr H a ffactorau lliniaru.

Cytunodd y Panel Apeliadau i ysgrifennu eto at Mr H yn ymddiheuro am y diffyg ehangu yn ei lythyr penderfyniad cychwynnol, ac i roi eglurhad mwy manwl o'i benderfyniad. Ymrwymodd hefyd i awgrymu i'r Ysgol a'r Pwyllgor Derbyn y dylid nodi'r meini prawf derbyn yn gwbl glir yn y llenyddiaeth a gyhoeddir, fel nad oedd unrhyw gamddealltwriaeth na chamddehongliad o'r broses.

Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Caerdydd - Casglu sbwriel, ailgylchu a gwaredu gwastraff

Achos Rhif: 201901604 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod Tîm Rheoli Gwastraff y Cyngor wedi methu â dychwelyd bin sbwriel ei fam i'r compownd yn gywir a chau'r gât ddiogel. Roedd Mr X wedi gwneud nifer o gwynion am y mater ond heb dderbyn ymateb ac ateb parhaol.

Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus fod Mr X yn amlwg yn teimlo'n siomedig gyda'r Cyngor gan ystyried felly y byddai'n briodol i Mr X dderbyn sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i wneud hyn yn llai tebygol o ddigwydd eto. Derbyniodd y Cyngor fod hyn yn annerbyniol a chytunodd, er mwyn setlo'r gŵyn, i wneud y canlynol o fewn un mis i ddyddiad llythyr penderfyniad yr Ombwdsmon:

- a) Nodi'n glir pa dîm sy'n gyfrifol am sicrhau bod y bin sbwriel yn cael ei ddychwelyd i'r compownd yn gywir a bod y gât ddiogel yn cael ei chau.
- b) Ymateb yn llawn i Mr X yn egluro pa newidiadau sydd wedi eu gwneud i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.
- c) Sicrhau bod y Tîm Rheoli Gwastraff yn adolygu sut y bydd y Tîm Clirio Tai a'r Tîm Rheoli Gwastraff yn gweithio gyda'i gilydd i atal hyn rhag digwydd eto.

Sŵn a materion niwsans eraill - Cyngor Sir Ceredigion

Achos Rhif: 201903084 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Casglodd yr Ombwdsmon, er bod y Cyngor wedi dilyn ei weithdrefn ar gyfer ymchwilio i'r gŵyn niwsans sŵn, ei fod hefyd wedi gwneud gwaith cywiro i eiddo cyfagos mewn ymgais i geisio lleihau'r broblem sŵn. Gwnaed y gwaith hwn y tu allan i weithdrefn arferol y Cyngor a honnodd Mr A fod y gwaith wedi gwneud difrod i'w eiddo. Hefyd bod y Cyngor wedi methu â rhoi digon o wybodaeth i Mr A am ei weithdrefn, roedd rhai methiannau cyfathrebu wedi bod ac roedd ymateb y Cyngor i'r gŵyn wedi methu ag ateb un pryder yn llawn.

I gydnabod y methiannau hyn, cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo'r gŵyn erbyn 28 Hydref 2019:

- a) Asesu'r difrod honedig i eiddo Mr A, ac os nad yw'n ystyried ei fod yn gyfrifol, rhoi gwybodaeth i Mr A am sut i fynd ati i wneud hawliad yswiriant yn erbyn y Cyngor.
- b) Ymddiheuro wrth Mr A am y methiannau cyfathrebu.
- c) Cyhoeddi'r weithdrefn ymchwilio i niwsans sŵn ar wefan y Cyngor ac adolygu ei lythyrau'n cydnabod niwsans sŵn.
- d) Talu iawndal o £125 i Mr A am ei amser a'i drafferth yn gorfod cwyno i'r Ombwdsmon.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Sŵn a materion niwsans eraill

Achos Rhif: 201902684 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms W fod y Cyngor wedi methu ag ymchwilio'n foddhaol i gŵyn am niwsans sŵn. Roedd yn anhapus nad oedd y Cyngor wedi adnabod ffynhonnell y sŵn a heb roi gwybod iddi am statws cynnydd yr ymchwiliad. Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ymrwymadau o ran hyd a lled yr ymchwiliad. Fodd bynnag roedd yn bryderus nad oedd y Cyngor wedi rhoi gwybod i Ms W fod y Cyngor wedi rhoi'r gorau i'r ymchwiliad a heb roi rhesymau iddi am ei benderfyniad. Ar ôl trafod gyda'r Ombwdsmon, cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol:

- 1) Anfon cyfrif ysgrifenedig at Ms W o'r gwaith ymchwilio a wnaed i ffynhonnell y sŵn, gan gynnwys manylion llawn y mesurau a gymerwyd i ymchwilio i bob ffynhonnell sŵn bosib ac egluro ei benderfyniad i roi'r gorau i'r ymchwiliad.
- 2) Cynnig cyfarfod i Ms W i'w gynnal yn y chwe wythnos nesaf er mwyn trafod yr ymchwiliad yn fwy manwl.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y mesurau hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Cyllid a Threthiant

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Caerdydd – Cyllid a Threthiant

Achos Rhif: 201903159 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Roedd Mr X wedi cwyno am benderfyniad y Cyngor i ddileu ei ostyngiad Treth Cyngor, yr oedd ganddo hawl iddo o'r blaen, fel bod ganddo wedyn fil annisgwyl o dros £800. Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod i Mr X fod ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Dribiwnlys Prisio Cymru. Penderfynodd y Cyngor, wrth ymateb i ymholiadau'r Ombwdsmon ac fel arwydd o ewyllys da, ddileu bil Mr X. Cytunodd y Cyngor hefyd, o fewn 20 diwrnod gwaith, i ymddiheuro wrth Mr X am fethu â rhoi gwybod iddo fod ganddo hawl i apelio ac i atgoffa'r staff perthnasol bod angen gwneud hynny wrth roi gwybod i bobl am benderfyniadau o'r fath.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y mesurau hyn yn rhesymol i setlo'r gŵyn.

Tai

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd - Hawliau ac amodau tenantiaeth/cefnu ar eiddo a throi allan o eiddo

Achos Rhif: 201901276 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod y Gymdeithas wedi methu â glanhau ffenestri ei eiddo. Mae Mr X yn denant gyda'r Gymdeithas a ddylai sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw'n lân. Fodd bynnag nid oedd y Gymdeithas yn cadw at hyn.

Dywedodd y Gymdeithas fod y ffenestri'n cael eu glanhau bob tri mis a chytunodd i wneud y canlynol er mwyn setlo cwyn Mr X:

Erbyn 30 Mehefin 2019

- a) Glanhau'r ffenestri a'r gwaith i'w gwblhau dros gyfnod o 5 diwrnod gwaith. (Credwn fod hyn bellach wedi cael ei wneud)

Erbyn 30 Medi 2019

- b) Glanhau'r ffenestri a'r gwaith i'w gwblhau dros gyfnod o 5 diwrnod gwaith (gan ddibynnu ar y tywydd).

Cymdeithas Dai Unedig Cymru – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog, ffenestri gwydr dwbl)
Achos Rhif: 201901591 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Miss X fod y Gymdeithas wedi methu â thrwsio ei bwyler gan ei gadael heb wres ers Chwefror 2019 er ei hysbysu y byddai ond yn cymryd 6-8 wythnos.

Dywedodd Miss X fod diffyg cyfathrebu llwyr wedi bod ac nad oedd y Gymdeithas wedi ei diweddarau ar gynydd y gwaith trwsio.

Nid oedd ychwaith wedi ei digolledu am golli gwres.

Credai'r Ombwdsmon fod hyn yn fethiant gwasanaeth ar ran y Gymdeithas. Cytunodd y Gymdeithas felly i gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Miss X:

Erbyn 9 Awst 2019

- a) Cwblhau'r holl waith trwsio i'r bwyler.

O fewn 14 diwrnod gwaith

- b) Ymddiheuro wrth Miss X am yr amser a gymrodd i ddod i benderfyniad ynghylch ei bwyler.
- c) Talu £667.50 i Miss X am ei hamser a'i thrafferth yn cwyno i'r Ombwdsmon ac am y methiannau lawer ar ran y Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi dweud y bydd yn ymchwilio i'r rhesymau am y fath ddiffyg cyfathrebu i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Cyngor Sir Powys – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog/ffenestri dwbl)
Achos Rhif: 201903016 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mrs X fod Adran Dai'r Cyngor wedi methu â gwneud taliad lwfans ailaddurno lawn iddi na'i digolledu am yr oedi i'w mam, Mrs Y, wrth i'r Cyngor gyflawni gwaith trwsio ar ei chartref. Cwynodd Mrs X hefyd fod y Cyngor wedi addo ymddiheuro wrth ei mam ond nad oedd wedi gwneud hynny.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi talu £250 i Mrs X o ganlyniad i'w ymchwiliad ei hun i'w chwyn ond bod diffyg eglurder o ran y rhesymau pam yr oedd wedi gwneud y taliad. Roedd y Cyngor hefyd wedi addo ysgrifennu'n uniongyrchol at Mrs Y i ymddiheuro wrthi, ond nid oedd wedi gwneud hynny.

Felly, er mwyn setlo'r gŵyn, cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol erbyn 18 Medi 2019:

- a) Ymddiheuro'n uniongyrchol i Mrs X (fel yr oedd wedi addo ei wneud) ac ymddiheuro ymhellach am yr oedi'n ysgrifennu ati.
- b) Ymddiheuro wrth Mrs X am y diffyg eglurder ynghylch y taliad o £250 iddi.
- c) Egluro wrth Mrs X beth oedd y taliad o £250.

Cyngor Caerdydd – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog/fffenestri dwbl)

Achos Rhif: 201902645 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr X nad oedd Cyngor Caerdydd ("y Cyngor") wedi ymateb yn llawn i'w gŵyn ym mis Mai 2019. Roedd Mr X yna wedi anfon cais pellach i'r Cyngor drwy e-bost ym Mehefin 2019, ond heb gael ymateb.

Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo cŵyn Mr X:

Erbyn 11 Medi 2019:

- a) Rhoi ymateb llawn i Mr X i'r pryderon oedd yn dal i fod ganddo.
- b) Cynnig taliad ewyllys da o £25 i Mr X am yr anhwylostod a'r oedi cyn iddo ymateb.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Cyngor Sir Powys – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog/fffenestri dwbl)

Achos Rhif: 201804610 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd yr achwynydd fod oedi annerbyniol wedi bod ar ran ei landlord, Cyngor Sir Powys, gyda chymryd mesurau i ddatrys problem damprwydd yn ei chartref. Roedd hefyd yn bryderus nad oedd y Cyngor wedi ad-dalu ei chostau ailaddurno.

Casglodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod peth oedi diangen wedi bod ar ran contractwyr y Cyngor gyda chyflawni gwaith i ddatrys y broblem damprwydd ac felly cynigiodd setliad er mwyn datrys y mater.

Cytunodd y Cyngor i dalu iawndal ariannol o £625 i'r achwynydd i adlewyrchu'r oedi gyda chwblhau'r gwaith, y costau ailaddurno a'r difrod i eitemau personol yr achwynydd. Byddai hefyd yn cysylltu â'r achwynydd i gytuno ar amser hwylus i'r ddwy ochr ar gyfer archwilio a chymeradwyo'r gwaith oedd ar ôl i'w wneud.

Coastal Housing Group Ltd – Anghydfod rhwng cymdogion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
Achos Rhif: 201902820 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms H fod y Gymdeithas wedi methu â darparu lle parcio iddi ac nad oedd wedi delio â phroblemau gwrthgymdeithasol yr oedd wedi eu cael gyda'i chymydog.

Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd eiddo Ms H wedi'i restru ym manyleb y cynllun tai fel un gyda lle parcio dynodedig a bod y Gymdeithas wedi ceisio hwyluso cytundeb rhwng Ms H a'i chymydog fel y gallai barcio yn ei le parcio ef.

Fodd bynnag, oherwydd bod cwyn Ms H i'r Ombwdsmon yn honni ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ran ei chymydog, a Ms H yn dweud ei bod yn cael trafferthion â'i hanabledd oherwydd na allai barcio wrth ymyl ei heiddo, cafodd y gŵyn ei setlo ar y sail y byddai'r Gymdeithas yn gwneud y canlynol erbyn 2 Hydref 2019:

- a) Ysgrifennu at Ms H yn cynnig cyfryngu gyda'i chymydog.
- b) Cynnig cyfarfod i Ms H i drafod y posibilrwydd o symud i eiddo gyda lle parcio dynodedig.

Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod y Gymdeithas wedi cytuno i wneud taliad i Ms H fel ad-daliad am glo yr oedd wedi'i brynu, ond nad oedd wedi gwneud hynny. Felly cytunodd y Gymdeithas hefyd i wneud y canlynol erbyn 2 Hydref 2019:

- c) Ad-dalu Ms H am gost y clo, fel yr oedd wedi addo ei wneud.

Cartrefi Conwy – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog/fffenestri dwbl)
Achos Rhif: 201902316 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms A fod y Gymdeithas wedi rhoi ar ddeall iddi y byddai'n gosod ei phopty nwy pan fyddai'n symud i'r eiddo. Pan symudodd i'r eiddo, cafodd wybod nad oedd cyfleusterau nwy yn yr eiddo ac y byddai'n gorfod trefnu i osod cysylltiad nwy yn yr eiddo ar ei chost ei hun.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Gymdeithas wedi methu â rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i Ms A cyn iddi gytuno i symud i'r eiddo.

Mae'r Gymdeithas bellach wedi gwneud y canlynol: -

1. Ymddiheuro wrth Ms A am roi gwybodaeth anghywir iddi.
2. Gosod y popty nwy.
3. Trefnu ymweliad i drafod unrhyw bryderon sy'n parhau i fod ganddi a chynnig taleb o £100 fel arwydd o ewylllys da.

Cytunodd y Gymdeithas hefyd y byddai'n: -

4. Adolygu'r wybodaeth a roddir i denantiaid, a diweddarau ei llawlyfr **erbyn 30 Medi 2019**.

Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd – Gwaith trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys tamprwydd/gwelliannau ac addasiadau, e.e. gwres canolog, ffenestri gwydr dwbl)
Achos Rhif: 201903207 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr X nad oedd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd ("y Gymdeithas") wedi tynnu deiliach oedd yn tyfu drosodd ar wal derfyn Mr X.

Cytunodd y Gymdeithas i wneud y canlynol er mwyn setlo cŵyn Mr X:

Erbyn 26 Medi:

- Trefnu i gontractwyr ddod i eiddo Mr X i dynnu'r deiliach.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Cyngor Caerdydd – Ceisiadau, dyraniadau, trosglwyddiadau a chyfnewidiadau
Achos Rhif: 201902469 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mrs X nad oedd y Cyngor yn caniatáu iddi gael ei hychwanegu at gytundeb tenantiaeth ei mam ac nad oedd wedi ystyried ei hamgylchiadau personol pan wnaeth ei benderfyniad.

Er bod y Cyngor wedi ymateb i gŵyn Mrs X, roedd y llythyr yn amwys a heb ddigon o fanylion. Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo cwyn Mrs X:

Erbyn diwedd Medi 2019

- a) Anfon llythyr manwl at Mrs X yn egluro ei benderfyniad yn llawn.

Cynllunio a Rheoli Adeiladu

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Sir Benfro – Materion cynllunio eraill
Achos Rhif: 201903126 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mrs X, ar ôl cael caniatâd cynllunio flwyddyn yn ôl ar gyfer iard sgrap yn eiddo ei chymydog, fod ei chymydog wedi mynd dros y terfyn a ganiatawyd ac yn parcio cerbydau sgrap ar dir y Cyngor, oedd yn ddolur llygad meddai Mrs X.

Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo cŵyn Mrs X:

Erbyn 10 Hydref:

- Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb â Mrs X a chynrychiolwyr o bob un o'r adrannau perthnasol (Cynllunio, Priffyrdd, Parcio a Cherbydau Wedi eu Gadael) i drafod yr hyn sy'n digwydd a pha fesurau y bydd pob adran yn / ddim yn gallu eu cymryd.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol.

Cyngor Sir y Fflint – Datblygiad diawdurdod – galwadau am gamau gorfodi etc.

Achos Rhif: 201903049 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr X fod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chymryd camau gorfodi yn erbyn eiddo cyfagos. Cwynodd Mr X hefyd fod Cyngor Sir y Fflint wedi rhoi gwybodaeth anghywir iddo mewn ymateb cwyn cam 2 iddo.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â rhoi amserlen benodol i Mr X ynghylch pryd y byddai'n dechrau cymryd camau gorfodi yn erbyn ei eiddo cyfagos. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod y Cyngor wedi rhoi gwybodaeth anghywir i Mr X yn ei ymateb cam 2 a heb ei ddiweddarau'n gywir a chynhwysfawr ynghylch ei gŵyn.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor a gytunodd i:

- a) Ymddiheuro'n ysgrifenedig wrth Mr X am roi gwybodaeth anghywir iddo yn ymateb cam 2 y Cyngor i'w gŵyn.
- b) Rhoi diweddariad llawn, cywir a chynhwysfawr i Mr X ar ei gŵyn.
- c) Cwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer cymryd camau gorfodi a'i weithredu, os bydd angen, o fewn amserlen gytunedig.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon y byddai hyn yn datrys y materion a ystyriwyd yn y gŵyn hon.

Ffyrdd a Thrafnidiaeth

Cadarnhawyd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Cynnal a chadw ffyrdd/adeiladu ffyrdd

Achos Rhif: 201806171 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr N am faterion yn codi o anghydfod gyda'r Awdurdod a fu'n rhedeg ers tro byd: Yn benodol cwynodd:

- a) Bod yr Awdurdod wedi methu ei rybuddio i beidio â chwblhau gwaith y dywedodd wrth yr Awdurdod y byddai'n ei wneud, ac a ddywedodd nes ymlaen oedd yn ddiawdurdod.
- b) Am yr oedi cyn i'r Awdurdod ymateb i'w gŵyn, ac am ran y Prif Weithredwr (a oedd, yn ei rôl flaenorol gyda'r Awdurdod, yn destun y gŵyn a wnaed gan Mr N) mewn cynhyrchu'r adroddiad yn ymchwilio i'r mater.
- c) Am y mesurau a gymrodd yr Awdurdod i weithredu argymhellion yr adroddiad.

Casglodd yr Ombwdsmon fod yr Awdurdod wedi methu â sicrhau bod y gwaith yr oedd Mr N yn bwriadu ei wneud yn glir, a lle'r oedd angen, wedi'i gytuno ymlaen llaw. Roedd hyn yn gamweinyddu ar ran yr Awdurdod. Roedd ymchwiliad yr Awdurdod i gŵyn Mr N wedi cymryd dros dair blynedd ac wedi arwain at greu o leiaf 13 fersiwn o adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Roedd yn glir bod geiriad yr adroddiad mewn manau wedi cael ei ddylanwadu gan sylwadau'r Prif Weithredwr ar rai o'r fersiynau. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd, er bod yr Awdurdod wedi eu derbyn, nad oedd holl argymhellion y Swyddog Ymchwilio wedi cael eu gweithredu'n brydlon. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon holl elfennau'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr Awdurdod yn ymddiheuro wrth Mr N, yn talu cyfanswm o £1250 i adlewyrchu ei amser a'i drafferth yn dilyn hynt ei gŵyn ac am yr anhwylystod a achoswyd iddo gan y methiannau. Argymhellodd hefyd fod yr Awdurdod yn diweddarau Mr N yn rheolaidd ar ei fesurau i weithredu argymhellion y Swyddog Ymchwilio. Cytunodd yr Awdurdod i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon.

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Bro Morgannwg - Eraill

Achos Rhif: 201901789 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X fod y Cyngor wedi symud arhosfan bws y tu allan i'w ddrws ffrynt. Dywedodd ei fod wedi cael ei symud heb wneud asesiad ffurfiol o effaith a hefyd nad oedd preswylwyr wedi cael unrhyw rybudd gan y Cyngor y byddai'r arhosfan yn cael ei symud.

Roedd y Cyngor ers hynny wedi awgrymu y byddai'n dod o hyd i rywle arall gerllaw i symud yr arhosfan iddo, ond methodd â gwneud hynny.

Bellach mae'r Cyngor wedi cadarnhau fod penderfyniad wedi'i wneud i symud yr arhosfan bws ac wedi cytuno i wneud y canlynol i setlo cwyn Mr X:

Yn dechrau ar 3 Gorffennaf 2019

- (a) Bydd gwaith yn dechrau ar symud arwydd a phostyn yr arhosfan yn ôl i'w lleoliad gwreiddiol.

Dros y diwrnodau canlynol

- (b) Bydd y cyrbiau arhosfan bws yn cael eu codi a chyrbiau arferol yn cael eu gosod yn eu lle.

Llywodraeth Cymru – Eraill

Achos Rhif: 201901943 & 201901940 & 201901939 & 201901937 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr X am yr oedi gan Lywodraeth Cymru'n cwblhau'r broses o brynu tir ei gleient fel na allai, o ganlyniad, gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y broses yn gymhleth, derbyniodd fod nifer o bethau wedi effeithio ar roi blaenoriaeth i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i geisio cwblhau proses y gorchymyn prynu gorfodol yn derfynol erbyn 15 Hydref. Os nad oedd hyn yn bosib, cytunodd i roi eglurhad manwl o'r oedi i swyddfa'r Ombwdsmon ynghyd â thystiolaeth i gefnogi hynny a'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Cyngor Caerdydd – Eraill

Achos Rhif: 201903155 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Mr X fod Cyngor Caerdydd ("y Cyngor") wedi tynnu arwydd Dim Ffordd Trwodd wrth ymyl ei gartref. Roedd Mr X wedi cwyno i'r Cyngor dros nifer o flynyddoedd ac wedi ei sicrhau y byddai'r cais am arwydd newydd yn cael ei weithredu, ond roedd y Cyngor yn dal i fod heb adnewyddu'r arwydd.

I setlo cwyn Mr X, cytunodd y Cyngor i adnewyddu'r arwydd Dim Ffordd Trwodd erbyn 11 Hydref 2019.

Darparwr Gofal Hunan-Ariannu

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Gofal Cartref

Achos Rhif: 201902693 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Ms A na chafodd wybod gan y Cyngor, yn dilyn asesiad o fudd-daliadau lles, y byddai'n creu pecyn gofal cartref ar ei chyfer nac ychwaith y byddai angen iddi gyfrannu'n ariannol at y pecyn hwnnw cyn ei roi yn ei le. Dywedodd Ms A ei bod wedi canslo'r pecyn ar ôl dod yn ymwybodol o hyn ond bod y Cyngor yn honni y dylai dalu'r ffioedd a achoswyd cyn canslo'r pecyn er nad oedd wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor ymlaen llaw i wneud trefniadau o'r fath.

Cyn ymchwilio i gŵyn, rhaid i'r Ombwdsmon fodloni ei hun fod y mater(ion) y cwynir yn eu cylch wedi eu codi gyda'r sefydliad dan sylw a bod y sefydliad wedi cael cyfle rhesymol i ymchwilio ac ymateb. Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru weithdrefn gwyno statudol i'w dilyn ar gyfer cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol, o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Er bod y Cyngor wedi delio'n briodol â chais Ms A i hepgor talu'r ffioedd dan sylw, sef drwy ei broses apelïadau mewnol, nid oedd wedi delio â byrdwn y gŵyn. Sef na chafodd Ms A ei hysbysu'n flaenorol ac nad oedd wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw i'r Cyngor i greu pecyn gofal cartref ar ei chyfer, cyn ei roi yn ei le.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor a gytunodd i roi cwyn Ms A drwy ei weithdrefn gwynion statudol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion

Cadarnhawyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Eraill

Achos Rhif: 201800208 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Mr A fod Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor wedi methu â gwneud taliadau uniongyrchol ("DP") am swm oedd yn cwrdd ag angen ei deulu (wedi'i asesu) am ofal seibiant. Dywedodd o ganlyniad na allai dalu cyflog cyfreithlon i'w weithwyr gofal. Cwynodd hefyd am y ffordd y deliodd y Cyngor â'i gŵyn. Dywedodd Mr A ei fod wedi colli ei weithwyr gofal oherwydd methiant y Cyngor i gywiro pethau'n brydlon gan roi straen annioddefol ar ei deulu.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfrifo'r costau priodol oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau oedd eu hangen ar deulu Mr A. Er na ddaeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod Mr A wedi colli ei weithwyr gofal yn uniongyrchol o ganlyniad i'r hyn a wnaeth y Cyngor, roedd tystiolaeth o anghydfod cyflogau heb ei ddatrys. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd nad oedd ymchwiliad y Cyngor i gŵyn Mr A yn drylwyr a bod y camau cywiro a gymrodd wedi methu â chywiro'r sefyllfa, iddo fo nac ychwaith i'w gyn-weithwyr.

Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro'n llawn a thalu iawndal o £750 i Mr A i gydnabod effaith y methiannau hyn a sicrhau hefyd bod unrhyw ôl-ddyledion DP heb eu talu'n cael eu talu iddo, gyda llog.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gwasanaethau i bobl hŷn Achos Rhif: 201801395 – Adroddiad a gyhoeddwyd Medi 2019

Cwynodd Ms B am y gofal cymdeithasol a dderbyniodd ei mam Mrs C. Cwynodd Ms B na wnaeth y Cyngor ddilyn y prosesau cywir wrth newid cynlluniau gofal nac ychwaith wrth gyflawni ymchwiliad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA). Cwynodd Ms B fod y Cyngor wedi methu â rhoi gwybodaeth bwysig iddi wrth newid y cynlluniau gofal ac wrth wneud cais i'r Llys Gwarchod. Cwynodd Ms B hefyd nad oedd y Cyngor wedi dilyn ei Bolisi Gweithredoedd Annerbyniol (UAP) yn iawn ac na wnaeth reoli ei chwynion yn iawn.

Casglodd yr ymchwiliad fod y Cyngor wedi ystyried y wybodaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau am y cynlluniau gofal, gan gynnwys cydbwysio diogelwch Mrs C a'i gweithwyr cymorth. Felly ni chadarnhaodd y gŵyn am y cynlluniau gofal, sef y brif elfen o'r ymchwiliad. Casglodd yr ymchwiliad fod y Cyngor ar y cyfan wedi rheoli'r broses POVA yn briodol ond bod ychydig o oedi wedi bod oherwydd diffyg canllawiau ar achosion trawsffiniol a bod hyn wedi achosi peth anghyfiawnder i Ms B; penderfynwyd cadarnhau y gŵyn hon i raddau.

Penderfynwyd chadarnhau y gŵyn i raddau bod y Cyngor wedi methu â rhoi gwybodaeth bwysig iddi. Casglodd yr ymchwiliad, er bod deialog barhaus wedi bod rhwng y Cyngor ar Ms B, y gallai'r cyfathrebu ar adegau fod wedi bod yn well. Roedd y Cyngor eisoes wedi ymddiheuro am hyn. Cadarnhawyd cwyn Ms B am yr UAP hefyd i raddau oherwydd bod y Cyngor wedi methu ag adnabod cais i apelio'r penderfyniad i'w ddilyn; casglodd yr ymchwiliad fod hyn wedi achosi mwy o rwystredigaeth i Ms B. Ni chadarnhawyd y gŵyn nad oedd y Cyngor wedi rheoli cwynion Ms B yn iawn.

Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro am y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad a briffio'r staff trin cwynion ar bwysigrwydd adnabod pan fydd rhywun yn gofyn am apêl. Cytunodd y Cyngor hefyd i gysylltu â'r Bwrdd Diogelu Oedolion i ofyn iddo ystyried darparu canllawiau ar reoli cwynion POVA trawsffiniol.

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

Cyngor Gwynedd – Gwasanaethau i oedolion agored i niwed (e.e. gydag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl) Achos Rhif: 201901008 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019

Cwynodd Miss H fod y Cyngor wedi methu â rheoli ei disgwyliadau ynghylch faint o amser y byddai'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ("CMHT") yn ei gymryd i gwblhau asesiad a chynllun gofal gan ddweud fod hyn wedi achosi trallod ychwanegol a diangen iddi.

Casglodd yr Ombwdsmon, er nad oedd y Cyngor wedi chadarnhau cwyn Miss H, ei fod wedi cytuno i adolygu'r wybodaeth yr oedd yn ei rhoi i ddefnyddwyr gwasanaeth ar adeg ymyriad y CMHT.

Wrth ymateb i ymholiadau'r Ombwdsmon, cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol erbyn 14 Awst 2019 er mwyn setlo cwyn Miss H:

- a) Ymddiheuro wrth Miss H os na chafodd ei hysbysu o amserlen yr asesiad ac am unrhyw drallod a achosodd hyn.
- b) Rhoi adborth i'r staff CMHT perthnasol bod angen rhoi gwybodaeth am amserlenni asesu i ddefnyddwyr gwasanaeth.

[Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Gwasanaethau i oedolion agored i niwed \(e.e. gydag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl\)](#)

[Achos Rhif: 201807449 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019](#)

Cwynodd Mr T, dros y cyfnod yr oedd ei fam yn preswyllo mewn Cartref Gofal rhwng 31 Ionawr a 21 Mawrth 2018, na dderbyniodd ofal boddhaol a phriodol i ateb ei hanghenion o ran ei lefelau hydradu, y dirywiad yn ei symudedd a'i risg o gael codwm. Cwynodd hefyd fod staff y Cartref Gofal wedi methu â sicrhau adolygiad o heintiau wrinol rheolaidd ei fam.

Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnodd Mr T i'r Cyngor ddechrau Ymchwiliad Cam 2, o dan Weithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol, yng nghyswllt nifer o faterion eraill dros yr un cyfnod yn ymwneud â'r gofal a dderbyniodd ei fam yn y Cartref Gofal. Cytunodd y Cyngor y byddai'r Ymchwiliad Cam 2 yn ystyried saith mater oedd wedi eu rhestru gan Mr T a'r tri mater yr oedd yr Ombwdsmon wedi cytuno i ymchwilio iddynt. Cytunodd y byddai'r ymateb Cam 2 terfynol yn cael ei roi erbyn 7 Hydref 2019. Credai'r Ombwdsmon fod hyn yn setlo'r mater yn rhesymol a daeth â'r ymchwiliad i ben ar y sail honno.

Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant

Datrysiaid Cynnar neu Setliad Gwirfoddol

[Cyngor Sir Powys - Eraill](#)

[Achos Rhif: 201807158 – Adroddiad a gyhoeddwyd Gorffennaf 2019](#)

Cwynodd Ms X am yr oedi gan y Cyngor a'i fethiant i weithredu'r holl argymhellion yn adroddiadau ymchwiliad Cam 2 y Cyngor dyddiedig Gorffennaf 2018 ac Ionawr 2019, oedd i roi sylw i'w chŵyn gwasanaethau cymdeithasol am y ffordd y deliodd ag achos ei hwyres, Y.

Derbyniodd y Cyngor ganfyddiadau dau adroddiad Cam 2 yr ymchwilydd annibynnol a dywedodd ei fod wedi cytuno i weithredu'r holl argymhellion, er yn cydnabod yr oedi gyda gwneud hynny. Dywedodd y Cyngor fod peth o'r oedi y tu allan i'w reolaeth, fel y cofnodion gwasanaethau cymdeithasol oedd ar goll ar gyfer Y a bod hyn wedi achosi oedi gyda gweithredu'r argymhellion. Roedd y Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn ddiweddar wedi dod o hyd i rai o'r cofnodion gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Y oedd wedi bod ar goll, oedd yn berthnasol i brif gŵyn Ms X.

I setlo cwyn Ms X i'r swyddfa hon, cytunodd y Cyngor i ymddiheuro wrth Ms X a thalu iawndal ariannol iddi am yr oedi a brofodd ac am ei hamser a'i thrafferth yn ceisio datrys ei phrif gŵyn gyda'r Cyngor. Cytunodd y Cyngor hefyd i gyfeirio cwyn Ms X yn ôl at yr ymchwilydd annibynnol Cam 2 fel y gallai ystyried y cofnodion gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Y oedd wedi bod ar goll a pharatoi cyfrif cywir i'w roi ar gofnod gwasanaethau cymdeithasol Y o sut y daeth i fyw gyda Ms X. Yn olaf, cytunodd y Cyngor i ddiweddarau'r argymhellion a wnaed yn ei adroddiad Cam 2 blaenorol.

Cyngor Caerdydd - Diogelu

Achos Rhif: 201901799 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Roedd Mrs A, er iddi gwyno i'r Cyngor, yn dal i deimlo nad oedd ei phryderon am y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael sylw iawn. Teimlai y byddai cyfarfod 'datrys lleol' gyda'r Cyngor yn fuddiol, lle byddai'r rhai a fyddai'n dod i'r cyfarfod yn cynnwys staff allweddol yn ymwneud â'i hachos.

I setlo cwyn Mrs A, cytunodd y Cyngor i drefnu cyfarfod 'datrys lleol' a chytuno i weithredu hyn erbyn 30 Medi 2019.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Gofal Cymdeithasol

Achos Rhif: 201807245 – Adroddiad a gyhoeddwyd Awst 2019

Cwynodd Mr E am y gwasanaeth yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i ddarparu i ateb anghenion gofal a chymorth ei fab, ac am y ffordd y deliodd â'i gŵyn. Dywedodd Mr E fod y Cyngor i ddechrau wedi gwrthod ei gais am ymchwiliad ffurfiol i'w bryderon ac yna wedi methu â gweithredu ar unrhyw fyrder mewn ymateb i adroddiad gan ymchwilydd annibynnol, yn benodol yn ymwneud ag asesiad amlasiantaethol ar gyfer ei fab. Dywedodd Mr E fod ei deulu o ganlyniad yn mynd heb y cymorth oedd ei angen arno.

Er bod y Cyngor wedi rhoi gwybodaeth i'r Ombwdsmon yn cadarnhau bod asesiad amlasiantaethol a chynllun gofal a chymorth ers hynny wedi cael eu gweithredu, penderfynodd yr Ombwdsmon fod diffygion yn ymateb cychwynnol y Cyngor i gŵyn Mr E a bod yr oedi gyda gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad annibynnol wedi achosi rhwystredigaeth i Mr E a'i deulu.

Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor gytuno i dalu iawndal o £500 i Mr E am ei amser a'i drafferth yn gwneud ei gŵyn ac am y rhwystredigaeth a achoswyd gan yr oedi. Cytunodd y Cyngor hefyd i drefnu cyfarfod â Mr E a staff amlasiantaethol i drafod pryderon Mr E am asesiad amlasiantaethol a chynllun gofal a chymorth ei fab.